

**CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)**

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, ar Ddydd Mercher, 8<sup>fed</sup> Chwefror, 2006 am 10.00 a.m.

**PRESENNOL**

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Cynghorwyr R.E. Barton (arsyllwr), G.C. Evans, K.N. Hawkins, C.L. Hughes, N. Hugh-Jones, G.A. Jones ac M.M. Jones

**Yn cynrychioli Cydbwyllgor Negydu Athrawon Sir Ddinbych**

M.B. Lloyd (Cadeirydd), I. Barros-Curtis a J. Buckley Jones

**Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol**

T. Bryer, H. Ellis, M. Evans, S. Harris, M. Hatch, B.H. Jones, J. Kirkham, P. Speirs a Mrs. C. Thomas

**HEFYD YN BRESENNOL**

Arolygwr/Ymgynghorydd A.G. (G. Craigen), Swyddog Addysg (T. Jones) a'r Swyddog Gweinyddol (K.E. Jones)

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH**

M. Bradshaw, Parch P.J. Collinson, Parch Athro L.J. Frances, T. Ap Sion (dirprwy i'r Parch Athro L.J. Frances) a'r Cynghorwyr D. Owens a G.J. Pickering

Cyflwynwyd ymddiheuriadau'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes hefyd am ei absenoldeb.

**MYFYRDOD TAWEL**

Dechreuwyd y cyfarfod gyda rhai munudau o fyfyrdod tawel.

**CROESO**

Cymerwyd y cyfle gan y Cadeirydd i groesawu pawb i'r cyfarfod ac estynnodd hi groeso neilltuol o gynnes i Mrs. C. Thomas oedd yn cynrychioli'r Eglwys Bresbyteriaidd (Saesneg) a Mrs. J. Buckley Jones oedd yn cynrychioli Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon gan fod y ddwy yn aelodau newydd o GYSAG

- 1. CYFLWYNIAD - ADDYSG GREFYDDOL YN YSGOL GYNRADD PENMORFA, PRESTATYN**

(Dygwyd yr eitem hon ymlaen ar yr agenda gyda chaniatâd y Cadeirydd)

Cyflwynwyd a chroesawyd i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Ann Boarman a Claire Boardman, athrawon o Ysgol Gynradd Penmorfa, Prestatyn, oedd yn bresennol i roi cyflwyniad ar y ddarpariaeth a'r dull cyflwyno Addysg Grefyddol yn yr ysgol.

Cyflwynodd yr athrawon gyflwyniad pwynt pŵer ar y cyd i'r Aelodau a chafwyd trosolwg ganddynt o'r dulliau oedd yn gweithio o fewn yr ysgol o'r Cyfnod Sylfaen i Flwyddyn 6 gyda phwyslais arbennig ar y meysydd canlynol:-

**Gwneud AG yn berthnasol i brofiadau'r plant yn eu bywyd bob dydd** - Roedd cynllun *Caring and Sharing*, y Cynllun Badger yn cael ei ddefnyddio i gefnogi AG yn yr ysgol. Yr oedd llyfrau amser meddwl wedi cael eu datblygu gyda llawer o'r gwaith yn cael ei wneud drwy straeon yn y dosbarthiadau derbyn. Roedd plant yn cael eu cymell i ddatblygu agwedd gofalgwr ac i ofalu am yr amgylchedd; Bod yn Perthyn (i deulu, i ddosbarth, i ysgol, i glwb, i eglwys, trwy ddefnyddio arddangosfeydd i gofnodi ac i ddangos y gwaith a gyflawnwyd), a Phethau Arbennig (anogir y plant i ddod a phethau arbennig i mewn ac i ganolbwyntio ar y rheiny gyda chylch amser tedi'n arbennig iawn i bawb yn y dosbarth a phwysigwydd ffrindiau)

**Gwneud defnydd llawn o'r gymuned leol** - Ymweld â lleoedd addoli lleol e.e. Eglwys y Plwyf, Eglwys Gatholig, Capel Rehoboth, Synagog (yn Lerpwl), y Mosg lleol, gwahodd ymwelwyr i'r ysgol e.e. gweinidog, offeiriad, gweithwyr elusennol, a rhieni

**Gweithio gydag arteffactau perthnasol** - Cristnogaeth: Y Beibl, y Groes; Islam: Y Corân a stand, mat gweddïo; ac Iddewiaeth: Menora, Tora, iad

**Dathlu ein statws aml diwylliannol** - Ein Hetifeddiaeth Gymreig; Enwadau Cristionogol gwahanol; Teuluoedd Mwslimaidd lleol a'u traddodiadau; Crefyddau a chredoau eraill e.e. Hindŵ a Chrefydd Bwda

**Gwneud defnydd o Dechnoleg Gwybodaeth** - Ymarferion trawsgwricwlaidd yn defnyddio TG e.e. prosesydd geiriau, defnyddio e-bost, ffotograffiaeth ddigidol, a gwefannau a wnelo ag AG i gael gwybodaeth e.e. teithiau rhithwir drwy eglwys a synagog, gan weld arteffactau crefyddol

**Gwneud y gorau o Addoli ar y Cyd** - Dathlu digwyddiadau arbennig e.e. Nadolig, Gŵyl Ddiolchgarwch, Dydd Gŵyl Dewi Sant, siaradwyr misol, a gwasanaethau dosbarth.

Drwy gydol y cyflwyniad, defnyddiodd yr athrawon ffotograffau i ddangos y gweithgareddau a gafwyd yn yr ysgolion. Paratowyd arddangosfa hefyd i'r Aelodau oedd yn cynnwys esiamplau o waith plant a'r adnoddau a ddefnyddiwyd.

Roedd yr Aelodau wrth eu bodd gyda'r cyflwyniad a manteisiwyd ar y cyfle i holi ynglŷn â gwahanol agweddau o'r ddarpariaeth AG yn Ysgol Penmorfa, yn enwedig cyfraniad y plant o wahanol grefyddau; agweddau hanesyddol o eglwysi a chapeli ym Mhrestatyn, a gwneud gwaith ar y cyd â phynciau eraill, a gwahanol

weithgareddau'r plant. Dywedodd y Cynghorydd G.A. Jones, yr aelod rhanbarthol lleol dros Brestatyn, bod disgyblion Ysgol Penmorfa yn cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau cymunedol lleol megis gwasanaethau carolau ayb a gobeithiai y byddai hyn yn cael ei annog o fewn ysgolion eraill.

Diolchodd y Cadeirydd i'r athrawon am eu cyflwyniad diddorol ac addysgiadol ac am roi cipolwg o'r gwaith rhagorol a wneir yn Ysgol Penmorfa wrth ddysgu Addysg Grefyddol.

**PENDERFYNWYD** derbyn a nodi'r cyflwyniad ar AG yn Ysgol Gynradd Penmorfa, Prestatyn, a bod llythyr o ddiolch yn cael ei anfon yn uniongyrchol i'r ysgol ar ran CYSAG.

Yna, cafodd yr aelodau ychydig o funudau i ddarllen y deunyddiau a ddarparwyd gan yr ysgol fel rhan o'r cyflwyniad.

## 2. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 11eg Hydref, 2005 (a gylchlythyrwyd yn flaenorol), fel y'u cymeradwywyd gan y Cyngor Sir ar 24ain Ionawr, 2005.

### **Materion yn Codi**

Rhif Tudalen 497 - Rhif Eitem 636: Adroddiad Blynyddol Drafft - Ymddiheurodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd nad oedd copiâu o'r ddogfen derfynol ar gael i'r Aelodau yn y cyfarfod oherwydd oedi yn y broses printio. Fodd bynnag, byddai copiâu'n cael eu postio i'r Aelodau i gyd mor fuan â phosibl. Cadarnhaodd hefyd bod ysgolion wedi derbyn copiâu electronig o'r ddogfen yn barod.

Rhif Tudalen 498 - Rhif Eitem 637: Adroddiad Adolygu Monitro a Chefnogi - Dywedodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd nad oedd Adroddiad Adolygu Monitro a Chefnogi ar yr agenda heddiw. Yr ysgol dan sylw yn yr adroddiad nesaf oedd Ysgol Fendigaid Edward Jones, Rhyl, a gohiriwyd ymweliad hyd nes cael trafodaeth gan yr Esgobaeth Babyddol ynglŷn â'r dull monitro.

**PENDERFYNWYD** derbyn y cofnodion.

Cyflwynwyd cofnodion Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig a gynhaliwyd ar 11eg Hydref, 2005 (a gylchlythyrwyd yn flaenorol), fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor Sir ar 24ain Ionawr, 2005.

**PENDERFYNWYD** derbyn y cofnodion.

## 3. CANLYNIADAU ARHOLIADAU 2005

Cyflwynwyd tablau (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) i ystyriaeth yr Aelodau gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd yn rhoi manylion canlyniadau arholiadau mewn Addysg Grefyddol 2005 o'u cymharu â 2004 o fewn ysgolion uwchradd Sir Ddinbych. Cafwyd dadansoddiad o'r canlyniadau TGAU mewn Astudiaethau Crefyddol;

Astudiaethau Crefyddol Cwrs Byr; Astudiaethau Crefyddol Lefel Uwch TAG, Tystysgrif Addysg Cyrhaeddiad (TAC) mewn Astudiaethau Crefyddol.

Yna fe aeth yr Arolygwr/Ymgynghorydd drwy'r canlyniadau yn fanwl gyda'r Aelodau, gan adrodd ar lafar y cymariaethau rhwng canlyniadau arholiadau 2005 a 2004. Cyfeiriodd yn benodol ar y canlynol:-

- Canlyniadau TGAU i Gyd - Astudiaethau Crefyddol 2005 – yn gyffredinol roedd cynnydd o 56 o ymgeiswyr, ond yr oedd y canlyniadau'n dangos gostyngiad o 6.9% mewn perfformiad, a 6.5% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol
- Canlyniadau TGAU Bechgyn - Astudiaethau Crefyddol 2005 – gostyngiad tebyg gyda 5 yn llai o ymgeiswyr gyda gostyngiad o 3.5% mewn perfformiad, a oedd yn 7.7% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol
- Canlyniadau TGAU Merched - Astudiaethau Crefyddol 2005 - roedd cynnydd o 61 o ymgeiswyr o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond gostyngiad 4% mewn perfformiad oedd yn 6.3% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol
- Addysg Grefyddol i Gyd (Cwrs Byr) - yn gyffredinol roedd cynnydd o 126 o ymgeiswyr ac yr oedd y canlyniadau wedi gwella 4.4% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond yr oedd yn dal yn 6.3% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol;
- Addysg Grefyddol Bechgyn (Cwrs Byr) - yn gyffredinol roedd cynnydd o 65 o ymgeiswyr gyda graddau A\* - C, a oedd yn gyfartal â'r flwyddyn flaenorol. Roedd hyn yn dipyn o lwyddiant o ystyried y cynnydd mawr mewn nifer o ymgeiswyr a dim colli safon mewn perfformiad, ond roedd y canlyniadau'n dal yn 14.3% yn is na'r ffigur cenedlaethol;
- Addysg Grefyddol Merched (Cwrs Byr) - yn gyffredinol roedd cynnydd o 2 o ymgeiswyr gyda graddau A\* - C, a oedd wedi gwella 7.9% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond yr oedd y canlyniad yn dal yn 3.7% yn is na'r ffigur cenedlaethol;
- Lefel Uwch TAG i Gyd - Astudiaethau Crefyddol - roedd cynnydd o 8 o ymgeiswyr ond gostyngiad o 18.8% mewn perfformiad a oedd yn 5.4% yn is na'r ffigur cenedlaethol o'i gymharu â 8.9%, a oedd yn uwch na'r ffigur cenedlaethol y flwyddyn flaenorol, a
- Tystysgrif Addysg Cyrhaeddiad - roedd cynnydd o 2 ymgeisydd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol gyda chynnydd o 0.4% yn uwch na chanran gradd pasio'r flwyddyn flaenorol, ond yn dal yn is na'r lefel genedlaethol.

I gloi, atebodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd gwestiynau gan yr Aelodau ynglŷn â chanlyniadau'r arholiadau a chadarnhaodd y byddai'r canlyniadau'n cael eu cyhoeddi yn adroddiad blynyddol CYSAG ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd N. Hugh-Jones, adroddodd y Cadeirydd ar fformiwla

ariannu Elwa ar gyfer addysg ôl-16 a'r gorchmynion statudol ar gyfer AG i holl ddisgyblion sydd wedi eu cofrestru mewn ysgol, gan gynnwys disgyblion 16 - 19 oed.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arolygwr/Ymgynghorydd am y wybodaeth ystadegol, ond roedd yn siomedig i nodi fod y mwyafrif o'r canlyniadau yn is na chyfartaledd cenedlaethol Cymru. Fodd bynnag, roedd yn braf gweld cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr oedd yn eistedd arholiadau AG. Roedd yr Aelodau'n cydnabod bod llawer o waith caled yn mynd ymlaen o fewn ysgolion Sir Ddinbych a theimlai'r Cadeirydd, er bod y wybodaeth ystadegol yn ddefnyddiol, bod AG yn gwneud llawer ag ethos ysgol ac nid canlyniadau arholiadau'n unig.

**PENDERFYNWYD** *derbyn a nodi canlyniadau arholiadau ysgolion Sir Ddinbych ar gyfer 2005.*

#### **4. DADANSODDIAD O ADRODDIADAU AROLYGIAD AR YSGOLION**

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd (a gylchlythyrwyd yn flaenorol), ar y sylwadau cadarnhaol a negyddol yn ymwneud ag Addysg Grefyddol a Datblygiad Diwylliannol, Cymdeithasol, Moesol ac Ysbrydol (DDCMY) a arolygwyd mewn dwy ysgol rhwng Medi 2005 a Thachwedd 2005, ynghyd ag hanes byr o gefndir pob ysgol. Cynhaliwyd arolygiadau yn Ysgol Tir Morfa, Rhyl ac Ysgol Prion, Ysgol Reoledig Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru.

Cafodd yr aelodau grynoded byr o ganfyddiadau oedd yn berthnasol i'r ddwy ysgol gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd, gan esbonio ac egluro materion penodol mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau. Cadarnhaodd bod DDCMY wedi derbyn adroddiad Adran 10 o Ysgol Prion yn flaenorol a derbyniwyd yr adroddiad Adran 50 hwn yn ddiweddarach. Roedd yr Arolygwr/Ymgynghorydd yn falch o adrodd am y 37 sylw cadarnhaol ar gyfer Datblygiad Diwylliannol, Cymdeithasol, Moesol ac Ysbrydol (DDCMY) oddi wrth dim ond y ddwy ysgol, a oedd bron yn gyfartal o ran canmoliaeth. Roedd hefyd yn galonogol mai dim ond tri sylw negyddol a dderbyniwyd. Ynglŷn ag Addysg Grefyddol, roedd 21 o sylwadau cadarnhaol ar gyfer Ysgol Tir Morfa ac er nad oedd AG wedi ei arolygu'n benodol yn Ysgol Prion, crybwyllwyd bod sylw cadarnhaol i'w ganfod mewn man arall o fewn adroddiad yr Arolygwr. Nid oedd diffygion arwyddocaol.

Talodd yr Aelodau deyrnged i lwyddiannau'r ysgolion, yn enwedig gan fod Ysgol Prion yn ysgol fechan a bod Ysgol Tir Morfa yn ysgol anghenion arbennig, ac roeddynt yn estyn eu llongyfarchiadau i'r ddwy ysgol am y canfyddiadau cadarnhaol. Gofynnodd y Cadeirydd, yn unol â'r arferiad, i'r ysgolion arolygwyd gael eu llongyfarch ar eu hadroddiadau.

*Penderfynwyd:-*

(a) *derbyn a nodi'r adroddiad, a*

(b) *bod yr Arolygwr/Ymgynghorydd yn ysgrifennu at yr ysgolion arolygwyd yn eu llongyfarch am eu hadroddiadau.*

#### **5. CYMDEITHAS CYSAG, CYMRU- 19<sup>EG</sup> HYDREF 2005**

Cafwyd adroddiad llafar o'r cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 19eg Hydref, 2005 yng Nghanolfan Dinesig Casnewydd gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG fel a ganlyn:-

- cyflwyniad gan Mr Chris Owens, Pennaeth AG, Ysgol Gyfun Basaleg ar 'Provision for Post 16 Education'. Cymeradwywyd Ysgol Basaleg gan Estyn am ei darpariaeth o AG statudol, ac maent wedi cyflwyno'r cysyniad o 'Stand Down Day' pob tymor, sy'n canolbwyntio ar AG ac yn ymgymryd â gweithgareddau a gweithdai. Roedd yn gyflwyniad cadarnhaol dros ben, ac
- ail gyflwyniad ar 'The Global Dimension in RE', a gyflwynir hefyd yn y cyfarfod heddiw gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd.

**PENDERFYNWYD** derbyn adroddiad llafar yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG.

## 6. CYMDEITHAS CYSAG, CYMRU - CYFLWYNIAD AR AG MEWN ADDYSG FYD-EANG

Cafwyd cyflwyniad pwynt pŵer gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG ar 'The Global Dimension in RE' fel y'i cyflwynwyd i gyfarfod y Gymdeithas ar ran Panel Ymgynghori Cenedlaethol ar gyfer AG. Cylchlythyrwyd copïau o sleidiau'r cyflwyniad yn y cyfarfod.

Eglurodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd y ffocws cyfredol ar ADCDF (Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang) gyda chyfeiriadau yn Adroddiadau Arolygiad Estyn a Dogfen Ymgynghori a Phroses Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cyfeiriodd at yr angen i ADCDF i'w ymgorffori o fewn CPCP (Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth) a chynlluniau hyfforddi'r holl brifathrawon. Disgwylid y byddai mecanweithiau cefnogi corfforaethol ar lefel AAL a disgwylid cael tystiolaeth o arfer dda'n cael ei ledaenu fel bod pobl yn medru dysgu oddi wrth ei gilydd. Roedd hi'n angenrheidiol dangos y cyfraniad cadarnhaol roedd AG wedi ei wneud yn y maes hwn ac i gynnig arwyddion ar gyfer elfennau AG yn yr holl adnoddau a gynhyrchir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mewn meysydd o'r cwricwlwm lle gallai AG wneud cyfraniad. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y Maes Llafur Cytunedig yn cynnig cyfleoedd i ymchwilio ac archwilio, datblygu, deall ac i fedru mynegi barn a syniadau am y byd ehangach a'r darlun ehangach.

I gloi, dywedodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd y gofynnwyd i CCYSAGC ystyried y materion a'r cwestiynau a rhoi cyngor a chefnogaeth i athrawon AG yn eu cyfraniad i hwnnw a gwaith grwpiau/cynghori ABCh/ADCDF oedd yn bodoli. Gohiriwyd adolygiadau lleol o'r Meysydd Llafur Cytunedig a phan gyhoeddir yr adolygiadau fe ddylent gynnwys arwyddion clir. I derfynu, gofynnodd y cwestiwn 'Ydi AG yn barod?', gan ddweud fod nifer o asiantaethau'n barod, megis CAFOD, Cymorth Cristnogol, *TEAR Fund*, Cyfanfyd, Cysylltiadau Byd-eang a Sylfaen Dinasyddiaeth. Ynglŷn â ni ein hunain, cymerwyd camau'n barod gan sefydliadau i gynhyrchu adnoddau ar gyfer AG yn nhermau Dinasyddiaeth Fyd-eang. Gobeithio y byddai ACCAC ac Estyn hefyd yn cynhyrchu deunyddiau i helpu ysgolion mewn modd dyfeisgar yn ychwanegol at beth oedd ar gael o fewn y cwricwlwm ar hyn o bryd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arolygwr/Ymgynghorydd AG am ei gyflwyniad addysgiadol a theimlai y byddai'n ddefnyddiol i GYSAG wybod bod CCYSAGC a PYCAG yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf mewn Addysg gan sicrhau bod AG yn rhan o'r prosesau rheiny. Mae'n bwysig bod CYSAG, drwy ei waith, yn helpu ysgolion a sicrhau bod yr AALI yn ymwybodol o'r materion hyn er mwyn cefnogi arwyddbostio AG lle bo'n berthnasol.

**PENDERFYNWYD** derbyn a nodi cyflwyniad yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG ar AG mewn Addysg Fyd-eang.

## 7. CYMDEITHAS CYSAG, CYMRU - SYMPOSIWM YM MIS MAI 2006

Cyfeiriodd y Cadeirydd at daflenni (a gylchlythyrwyd yn y cyfarfod) yn hysbysu ymlaen llaw Symposiwm o'r enw '*Looking Beyond 2008 - Visioning RE*' a drefnir gan CCYSAGC gydag ACCAC rhwng 10.00 a.m. - 3.30 p.m. ar Ddydd Sadwrn 20fed Mai 2006. Bydd y Gynhadledd Arbennig hon yn cael ei chynnal yn Llandrindod a'r siaradwr gwadd fydd Jane Davidson A.C. Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Dywedodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG nad oedd penderfyniad terfynol wedi ei wneud ar y niferoedd oedd yn bwriadu mynychu ond y bwriad oedd i GYSAG enwebu cynrychiolwyr ac i anfon y taflenni yn electronig i ysgolion er mwyn annog athrawon i fod yn bresennol. Awgrymodd y gallai'r Aelodau enwebu un unigolyn o bob grŵp cynrychiadol ar GYSAG ynghyd ag unrhyw un arall a fyddai'n dymuno bod yn bresennol. Cytunwyd enwebu cynrychiolwyr CYSAG sydd ar CCYSAGC i fynychu'r Symposiwm ac i aelodau sy'n dymuno bod yno i gysylltu â naill ai'r Arolygwr/Ymgynghorydd neu Glerc CYSAG.

**PENDERFYNWYD** bod cynrychiolwyr CYSAG ar CCYSAGC, y Cadeirydd Mrs. M.B. Lloyd, Is-gadeirydd Parch B.H. Jones, y cyn-gadeirydd y Cynghorydd M.M. Jones a'r Arolygwr/Ymgynghorydd AG (Mr G. Craigen) yn cael eu henwebu i fynychu'r Symposiwm ar ran CYSAG Sir Ddinbych.

Wrth derfynu'r cyfarfod, diolchodd y Cadeirydd i'r Arolygwr/Ymgynghorydd AG, cyfieithydd y pwyllgor a Chlerc CYSAG am eu gwaith caled. Dywedodd hefyd bod yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG yn dychwelyd i Uganda yn fuan fel rhan o *Christian Relief Uganda* a dymunodd yn dda iddo yn ei ymweliad.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.50 a.m.

## Agenda Eitem Rhif 5

### Dyfyniadau o Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd ei Mawrhydi o Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2004 - 2005

*Ar gyfer CYSAGau –Mehedin / Gorffennaf 2006*

“Saesneg, Mathemateg, gwyddoniaeth ac addysg grefyddol yw gwaith gorau'r disgyblion gydol Cyfnod Allweddol 1 a 2.” (Tud 46)

“Yn 2005 bu cynnydd mawr yn nifer yr ymgeiswyr ar gyfer pynciau cwrs byr TGAU. Roedd hynny'n cynnwys llawer mwy o ymgeiswyr ar gyfer cyrsiau byr yn y Gymraeg fel ail iaith a thechnoleg gwybodaeth a nifer fawr yn dal i ymgeisio am Astudiaethau Crefyddol.” (Tud 47)

“Yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4 roedd yr arolygwyr o'r farn fod y safonau uchaf mewn:

- Saesneg
- Cymraeg fel iaith gyntaf
- daearyddiaeth
- leithoedd tramor modern
- technoleg gwybodaeth, ac
- addysg grefyddol” (Tud 50)

“Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion (mewn ysgolion cynradd) yn ddarpariaeth eithriadol mewn bron i ddwy ran o bump o ysgolion. Mae gwasanaethau mewn ysgolion yn chwarae rhan bwysig wrth helpu'r disgyblion i ddysgu gofalu am bobl eraill.” (Tud 61)

“Mae llawer mwy (*o ysgolion Uwchradd*) yn cyd addoli pob dydd o'r wythnos. Mewn rhai o'r ysgolion hyn, mae'r disgyblion yn myfyrio ar 'feddwl y dydd' yn ystod amser tiwtor grŵp. Er gwaethaf hynny, doedd un o bob chwech o'r ysgolion y buom yn eu harchwilio ddim yn cadw'n llawn at y gyfraith ynghyd cyd addoli dyddiol. (Tud 63)

*Atodiadau 1, 2, 3, 4 a 5 ynghlwm.*



## Atodiad

Tabl 1. Nifer y gwersi'n cyflawni graddau 1 i 5 ar gyfer y pynciau yng nghyfnod allweddol 1 yn yr ysgolion cynradd a arolygwyd yn 2004-2005.

Cyfnod allweddol 1						Cyfanswm nifer y gwersi a arolygwyd
Pwnc	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5	
Addysg gorfforol	21	112	36	2	0	171
Addys grefyddol	18	72	23	0	0	113
Celf	26	59	21	0	0	106
Cerddoriaeth	16	85	34	0	0	135
Cymraeg fel ail iaith	15	87	24	0	0	126
Cymraeg fel iaith gyntaf	19	79	30	3	1	132
Daearyddiaeth	21	69	27	0	0	117
Dylunio a thechnoleg	14	73	28	0	0	115
Gwyddoniaeth	24	105	25	1	0	155
Hanes	15	87	16	0	0	118
Mathemateg	26	175	57	2	0	260
Saesneg	34	188	56	1	0	279
Technoleg gwybodaeth	10	64	28	3	0	150
<b>Cyfansymiau</b>	<b>259</b>	<b>1255</b>	<b>405</b>	<b>12</b>	<b>1</b>	<b>1932</b>

## Atodiad

Tabl 2. Nifer y gwersi'n cyflawni graddau 1 i 5 ar gyfer y pynciau yng nghyfnod allweddol 2 yn yr ysgolion cynradd a arolygwyd yn 2004-2005.

Cyfnod allweddol 2						Cyfanswm nifer y gwersi a arolygwyd
Pwnc	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5	
Addysg gorfforol	40	195	73	3	0	311
Addys grefyddol	31	139	61	3	0	234
Celf	40	132	49	3	0	224
Cerddoriaeth	48	137	61	5	0	251
Cymraeg fel ail iaith	16	122	101	4	0	243
Cymraeg fel iaith gyntaf	17	107	62	6	0	192
Daearyddiaeth	36	138	58	11	1	234
Dylunio a thechnoleg	11	146	62	3	0	222
Gwyddoniaeth	68	230	59	10	1	368
Hanes	48	163	40	3	0	254
Mathemateg	72	1393	123	9	0	1597
Saesneg	86	473	162	10	0	731
Technoleg gwybodaeth	32	145	51	5	0	233
<b>Cyfansymiau</b>	<b>535</b>	<b>3520</b>	<b>962</b>	<b>75</b>	<b>2</b>	<b>5094</b>

Tabl 3. Nifer y gwersi'n cyflawni graddau 1 i 5 ar gyfer y pynciau yng nghyfnod allweddol 3 yn yr ysgolion uwchradd a arolygwyd yn 2004-2005.

Cyfnod allweddol 3						Cyfanswm nifer y gwersi a arolygwyd
Pwnc	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5	
Addysg gorfforol	3	55	43	14	0	115
Addys grefyddol	5	57	17	2	0	81
Celf	7	52	22	3	0	84
Cerddoriaeth	0	31	41	6	2	80
Cymraeg fel ail iaith	5	44	26	9	1	85
Cymraeg fel iaith gyntaf	5	18	10	0	0	33
Daearyddiaeth	8	50	20	4	0	82
Dylunio a thechnoleg	12	71	55	7	1	146
Gwyddoniaeth	5	82	90	16	3	196
Hanes	6	38	26	0	0	70
Ieithodd tramor modern	11	45	16	1	0	73
Mathemateg	9	49	34	6	0	98
Saesneg	10	71	38	5	0	124
Technoleg gwybodaeth	0	41	14	2	0	57
<b>Cyfansymiau</b>	<b>86</b>	<b>704</b>	<b>452</b>	<b>75</b>	<b>7</b>	<b>1324</b>

## Atodiad

Tabl 4. Nifer y gwersi'n cyflawni graddau 1 i 5 ar gyfer y pynciau yng nghyfnod allweddol 4 yn yr ysgolion uwchradd a arolygwyd yn 2004-2005.

Cyfnod allweddol 4						Cyfanswm nifer y gwersi a arolygwyd
Pwnc	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5	
Addysg gorfforol	9	39	25	8	1	82
Addys grefyddol	5	26	8	4	0	43
Celf	7	18	18	5	0	48
Cerddoriaeth	2	16	9	0	0	27
Cymraeg fel ail iaith	1	16	15	8	1	41
Cymraeg fel iaith gyntaf	5	11	8	0	0	24
Daearyddiaeth	3	32	12	0	0	47
Dylunio a thechnoleg	12	43	22	2	0	79
Gwyddoniaeth	6	66	92	13	2	179
Hanes	4	25	14	0	0	43
Ieithodd tramor modern	7	22	7	0	0	36
Mathemateg	7	30	24	3	0	64
Saesneg	9	51	24	2	0	86
Technoleg gwybodaeth	8	36	5	0	0	49
<b>Cyfansymiau</b>	<b>85</b>	<b>431</b>	<b>283</b>	<b>45</b>	<b>4</b>	<b>848</b>

Tabl 5. Nifer y gwersi'n cyflawni graddau 1 i 5 ar gyfer y pynciau yn y chweched dosbarth yn yr ysgolion uwchradd a arolygwyd yn 2004-2005.

Y chweched dosbarth						Cyfanswm nifer y gwersi a arolygwyd
Pwnc	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5	
Addysg gorfforol	2	12	12	0	0	36
Addys grefyddol	2	12	2	0	0	16
Celf	9	10	3	0	0	22
Cerddoriaeth	5	8	1	0	0	14
Cymraeg fel ail iaith	0	6	6	1	0	13
Cymraeg fel iaith gyntaf	5	3	0	0	0	8
Daearyddiaeth	4	17	2	1	0	24
Dylunio a thechnoleg	5	7	3	0	0	15
Gwyddoniaeth	5	55	20	0	0	80
Hanes	0	15	3	0	0	18
Ieithodd tramor modern	4	7	2	0	0	13
Mathemateg	2	28	3	0	0	33
Saesneg	3	16	13	0	0	32
Technoleg gwybodaeth	6	18	5	0	0	29
<b>Cyfansymiau</b>	<b>52</b>	<b>214</b>	<b>75</b>	<b>2</b>	<b>0</b>	<b>343</b>

## Eitem Agenda Rhif 6

### Adroddiad ar ddarpariaeth Addysg Grefyddol yng nghonsortiw m ysgolion y Rhyl

*Ar gyfer CYSAG - Gorffennaf 2006*

#### 1. Cefndir:

Yn dilyn ymweliadau â phob un o'r ysgolion yn ystod tymor y gwanwyn gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol, cytunwyd ar adroddiad yr ymweliad a'r materion yn deillio o hynny gyda'r ysgol. Isod nodir y Nodweddion Da, Gwendidau ac Argymhellion ar gyfer pob ysgol, a chrynodeb cyffredinol o'r consortiw m cyfan.

#### 2. Rhannau o'r adroddiadau:

##### a) Ysgol Uwchradd y Rhyl

##### Nodweddion da

- Yr ymateb i'r tân wnaeth ddifa holl gofnodion ac adnoddau'r Adran.
- Datblygu cynlluniau gwaith newydd a Llawlyfr yr Adran, a darparu llyfrynnau gwaith cartref i grwpiau blwyddyn CA3 unwaith eto.
- Defnyddio Cardiau Gwobrwyo, a'r Tystysgrifau Cymryd Rhan yn y sesiynau addoli ar y cyd.
- Darparu sesiwn amser cinio i'r disgyblion hynny sy'n dymuno dilyn cwrs TGAU llawn.
- Y cynllunio a'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd, yn cynnwys addoli fel ysgol gyfan.
- Y berthynas dda rhwng athrawon a disgyblion, a'u dawn i gynnal cymhelliant a diddordeb disgyblion yn y pwnc.

##### Meysydd i'w datblygu

- Asesu cyflawniad disgyblion a chofnodi eu cynnydd.
- Cyswllt ag ysgolion cynradd, a chynyddu'r ddarpariaeth ôl-16, fel a nodwyd yn y Cynllun Datblygu.
- Lledaenu tasgau er mwyn galluogi disgyblion i roi ymateb mwy personol.

##### Argymhellion

- Parhau â'r arferion da a nodwyd, a'r gwaith o adennill tir yn dilyn y tân.
- Cynnal y cynllunio a'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd.
- Rhoi'r targedau arfaethedig yn y Cynllun Datblygu ar waith, yn enwedig:
  - system o asesu perfformiad disgyblion a chofnodi eu perfformiad yn erbyn lefelau'r Maes Llafur Cytunedig (drwy gyfrwng y ffurflen a ddarperir gan CYSAG/AALI, Deunyddiau Asesu Dewisol ACCAC neu gyfrwng arall)
  - datblygu'r cyswllt rhwng cynradd/uwchradd, ac adfer cysylltiadau ag ysgolion cynradd lleol
  - cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ôl-16
- Wrth adolygu'r cynllun gwaith, sicrhau bod y tasgau i ddisgyblion yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ymateb yn bersonol ac ymdrin ag arwyddocad crefyddol y topigau dan sylw.

## **b) Ysgol Bryn Hedydd**

### Nodweddion da

- Mae'r polisi Addysg Grefyddol a'r cynllun gwaith yn ddogfennau cynhwysfawr a chdir sy'n darparu canllawiau defnyddiol.
- Yr amrediad da o weithgareddau a thasgau a oedd yn amlwg yn y sampl o waith a arolygwyd.
- Y cynnydd yn yr adnoddau a'r arteffactau ar gyfer addysgu a dysgu Addysg Grefyddol.
- Y cyswllt newydd ei ddatblygu â'r gymuned ffydd leol o ran ymweliad ag eglwys.

### Meysydd i'w datblygu

- Asesu cyflawniad disgyblion mewn Addysg Grefyddol, a chofnodi eu cynnydd.

### Argymhellion

- Cynnal yr arferion da mewn Addysg Grefyddol a nodwyd.
- Gweithredu system o asesu cyflawniad disgyblion mewn Addysg Grefyddol, gan ddefnyddio'r ffurflen gan CYSAG/AALI, Deunyddiau

Asesu Dewisol ACCAC, neu ddull arall sy'n caniatáu mesur a chofnodi cynnydd.

- Cwblhau'r gwaith o adnewyddu'r polisi addoli ar y cyd, a'r gwelliannau arfaethedig i'r patrwm i'r ysgol, fel a drafodwyd.

### c) Ysgol Christchurch

#### Nodweddion da

- Cynllunio a chyflwyno defodau addoli ar y cyd
- Natur gynhwysfawr ac ystyrlon y cynllun gwaith
- Y broses fonitro a sefydlwyd, a rhannu'r canfyddiadau'n deillio o'r broses hon
- Amrediad y tasgau a'r gweithgareddau a gyflawnir mewn gwaith Addysg Grefyddol

#### Meysydd i'w datblygu

- Dogfennu a sicrhau bod y cynllun yn cwmpasu'r rhaglenni astudio yn y Maes Llafur Cytunedig yn ddigonol
- Nodi a chydlynu'r storïau Beiblaidd y dylai'r disgyblion roi sylw iddynt
- Datblygu dull asesu a chofnodi cyflawniad disgyblion o ran Lefelau'r Maes Llafur Cytunedig

#### Argymhellion

- Cynnal yr arferion da a nodwyd mewn Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd
- Nodi sut yr ymdrinir â'r rhaglenni astudio yn y Maes Llafur Cytunedig
- Llunio rhestr o storïau Beiblaidd i'w defnyddio yn y Cynllun Addysg Grefyddol, y rhai a ddefnyddir yn rheolaidd mewn gweithgareddau addoli ar y cyd, a'r rhai y dylid eu cyflwyno i'r disgyblion os yn bosibl ar ryw adeg yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- Datblygu system i gofnodi asesiadau cyflawniad disgyblion mewn modd sy'n cynorthwyo dysgu, a monitro cynnydd a safonau gan y Cydlynnydd - o bosibl drwy gofnodi'r aseiniadau ysgrifenedig a gwblheir bob hanner tymor a/neu ddefnyddio Deunyddiau Asesu Dewisol Addysg Grefyddol gan ACCAC.



## d) Ysgol Emmanuel

### Nodweddion da

- Y ddarpariaeth addoli ar y cyd, a'r profiadau cadarnhaol a buddiol a grewyd, yn cynnwys y canu brwdfrydig, rhagorol.
- Y broses fonitro a gwerthuso eglur a strwythuredig yn yr ysgol, sy'n cynnwys Addysg Grefyddol yn yr un fformat â'r pynciau eraill, a lle gwelir amcanion a deilliannau clir.
- Safle cadarn Addysg Grefyddol yn y cwricwlwm a'r ffocws Addysg Grefyddol da i'r gweithgareddau a'r tasgau dysgu.
- Ymdrin â'r gwendidau a nodwyd yn yr Arolygiad diwethaf, a'r ymdrech i wella cyflwyno'r cynllun gwaith drwy gyfrwng y broses fonitro.

### Meysydd i'w datblygu

- Elfennau crefyddol neu Gristnogol yr addoli ar y cyd.

### Argymhellion

- Cynnal yr arferion da y cyfeiriwyd atynt, yn enwedig y broses fonitro a gwerthuso a ddefnyddir.
- Parhau i ddatblygu cyflwyno'r cynllun yn y modd cadarnhaol ac eglur sy'n bodoli eisoes.
- Gweithredu i sicrhau bod y gweithredoedd addoli yn cynnwys elfen grefyddol neu Gristnogol glir, er mwyn cydymffurfio â gofynion statudol.

## e) Ysgol Llewelyn

### Nodweddion da

- Diwygio a datblygu'r cynllun gwaith.
- Dadansoddiad o'r cynllun yn erbyn y rhaglenni astudio yn y Maes Llafur Cytunedig.
- Cofnodi tystiolaeth, yn enwedig yn nosbarthiadau Blwyddyn 1.

- Patrwm addoli ar y cyd, y themâu a nodwyd ar gyfer y sesiynau hyn a chofnodi'r gwasanaethau addoli fel adran gyfan.
- Y talu sylw a'r drafodaeth gadarnhaol gan ddisgyblion yn ystod y wers CA1 yr arsylwyd arni.
- Defnyddio'r gymuned ffydd leol a mannau addoli lleol yn y rhaglen Addysg Grefyddol.

### Meysydd i'w datblygu

- Agweddau'r Cwricwlwm Cymreig yn y cynllun gwaith, a thopigau tymhorol.
- Lledaenu'r broses fonitro yn y pwnc.
- Asesu a chofnodi cyflawniad a pherfformiad disgyblion.
- Cynnwys y gymuned ffydd leol mewn gwasanaethau addoli ar y cyd.

### Argymhellion

- Parhau â'r arferion da a nodwyd eisoes, o ran Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd.
- Mireinio rhagor ar y cynllun gwaith drwy (a) gyflawni arolwg o'r elfennau Cwricwlwm Cymreig ynddo, a (b) rhoi mwy o sylw cydlynus i elfennau tymhorol.
- Annog defnyddio Deunyddiau Asesu Dewisol Addysg Grefyddol ACCAC yn CA2, a chofnodi'r lefelau a gyrhaeddwyd gan ddisgyblion drwy'r gwaith yn y deunyddiau hyn.
- Bod y Cydlynnydd hefyd yn pennu lefelau ac yn cofnodi lefelau'r gwaith yn y portffolio tystiolaeth, ac yn olrhain darpariaeth a chynnal safonau Addysg Grefyddol ar draws yr ysgol.
- Cyfleoedd i'r Cydlynnydd adolygu samplau o lyfrau yn fwy ffurfiol (ar y cyd ag uwch staff efallai), ac ystyried arsylwi ar wersi.
- Bod yr ysgol yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnwys y gymuned ffydd leol mewn gwasanaethau addoli ar y cyd o dro i dro.

## **f) Ysgol y Castell**

### Nodweddion da

- Mae'r cynllun gwaith yn glir, ac mae'n cael ei adolygu a'i ddatblygu.
- Mae'r cynllunio a'r ddarpariaeth addoli ar y cyd yn gadarn ac yn gadarnhaol.

- Monitro i gynnwys Addysg Grefyddol maes o law, yn dilyn yr un fformat â phynciau eraill.
- Cydlynwyr penodedig yn y pwnc ar gyfer pob Cyfnod Allweddol.

#### Meysydd i'w datblygu

- Dadansoddi sut yr ymdrinir â'r Rhaglenni Astudio yn y Maes Llafur Cytunedig.
- Asesu cyflawniad mewn Addysg Grefyddol, gan ddefnyddio'r dull sy'n cael ei dreialu yn yr ysgol.

#### Argymhellion

- Cynnal yr arferion da a nodwyd.
- Cyflawni'r diwygiadau arfaethedig i'r cynllun sydd ar y gweill ar hyn o bryd.
- Dadansoddi sut yr ymdrinir â'r rhaglenni astudio yn y Maes Llafur Cytunedig.
- Datblygu'r broses o asesu a monitro Addysg Grefyddol, yn unol â'r cynlluniau.

### **3. Sylwadau cyffredinol**

#### Nodweddion da:

Rhestrir rhyw 28 o nodweddion da yn yr adroddiad consortiwm yma, felly mae llawer i ni ymfalchio ynddo. Wrth eu dadansoddi ar draws y consortiwm, roedd pum agwedd y cyfeiriwyd atynt mewn ddwy ysgol neu fwy, a 23 mewn ysgolion unigol, fel a ganlyn:

- Cynllunio a darpariaeth/cyflwyno addoli ar y cyd (yn cynnwys addoli ar y cyd fel ysgol gyfan, canu, a'r patrwm a'r themâu mewn rhai ysgolion) (5 ysgol)
- Polisiâu a chynlluniau gwaith yn glir, cynhwysfawr ac ystyrlon a hawdd i athrawon eu dilyn (3 ysgol)
- Prosesau monitro wedi eu sefydlu, gyda strwythur clir fel mewn pynciau eraill/rhannu'r deilliannau o'r broses fonitro (3 ysgol)
- Amrediad da o weithgareddau a thasgau yn amlwg yng ngwaith y disgyblion (2 ysgol)

- Cysylltiadau â'r gymuned ffydd leol (o ran Addysg Grefyddol, neu gysylltiadau wedi eu creu yn ddiweddar [ymweliad â'r eglwys]) (2 ysgol)

O ran ysgolion unigol, y nodweddion da oedd:

- Yr ymateb i'r tân wnaeth ddifa holl gofnodion ac adnoddau'r Adran.
- Datblygu cynlluniau gwaith newydd a Llawlyfr yr Adran, a darparu llyfrynnau gwaith cartref i grwpiau blwyddyn CA3 unwaith eto.
- Defnyddio Cardiau Gwobrwyo, a'r Tystysgrifau Cymryd Rhan yn y sesiynau addoli ar y cyd.
- Darparu sesiwn amser cinio i'r disgyblion hynny sy'n dymuno dilyn cwrs TGAU llawn.
- Y berthynas dda rhwng athrawon a disgyblion, a'u dawn i gynnal cymhelliant a diddordeb disgyblion yn y pwnc.
- Y cynnydd yn yr adnoddau a'r arteffactau ar gyfer addysgu a dysgu Addysg Grefyddol.
- Safle cadarn Addysg Grefyddol yn y cwricwlwm a'r ffocws Addysg Grefyddol da i'r gweithgareddau a'r tasgau dysgu.
- Ymdrin â'r gwendidau a nodwyd yn yr Arolygiad diwethaf, a'r ymdrech i wella cyflwyno'r cynllun gwaith drwy gyfrwng y broses fonitro.
- Diwygio a datblygu'r cynllun gwaith.
- Dadansoddiad o'r cynllun yn erbyn y rhaglenni astudio yn y Maes Llafur Cytunedig.
- Cofnodi tystiolaeth, yn enwedig yn nosbarthiadau Blwyddyn 1.
- Cydlynwyr penodedig yn y pwnc ar gyfer pob Cyfnod Allweddol.

#### Meysydd i'w datblygu:

Yn y consortiwm yma dim ond un mater sy'n gyffredin i fwy nag un ysgol:

- Asesu cyflawniad disgyblion a'r broses gofnodi (5 ysgol)

Yn yr achos hwn mae'n berthnasol i bob ysgol ac eithrio un yn y Consortiwm, ac mae hyn yn peri syndod i raddau, o gofio fod yr AALI/CYSAG wedi cyhoeddi Canllawiau Asesu Addysg Grefyddol, a bod ACCAC - y defnyddir ei lefelau yn y Maes Llafur Cytunedig - wedi cyhoeddi Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Addysg Grefyddol. Fodd bynnag, mae'r broses o asesu yn y pynciau sylfaen wedi bod yn fater sy'n datblygu, a dros y blynyddoedd rhoddwyd mwy o sylw i'r pynciau craidd.

Roedd y meysydd eraill i'w datblygu yn berthnasol i ysgolion unigol:

- Cyswllt ag ysgolion cynradd, a chynyddu'r ddarpariaeth ôl-16, fel a nodwyd yn y Cynllun Datblygu.
- Lledaenu tasgau er mwyn galluogi disgyblion i roi ymateb mwy personol.
- Dogfennu a sicrhau bod y cynllun yn cwmpasu'r rhaglenni astudio yn y Maes Llafur Cytunedig yn ddigonol
- Nodi a chydlynu'r storïau Beiblaidd y dylai'r disgyblion roi sylw iddynt
- Elfennau crefyddol neu Gristnogol yr addoli ar y cyd.
- Agweddau'r Cwricwlwm Cymreig yn y cynllun gwaith, a thopigau tymhorol.
- Lledaenu'r broses fonitro yn y pwnc.
- Cynnwys y gymuned ffydd leol mewn gwasanaethau addoli ar y cyd.
- Dadansoddi sut yr ymdrinir â'r Rhaglenni Astudio yn y Maes Llafur Cytunedig.

#### Argymhellion:

Yn amlwg mae'r argymhellion yn dilyn o'r meysydd i'w datblygu, felly mae un mater sy'n berthnasol i bum ysgol yn y consortiwm, ac un arall sy'n deillio o'r arferion da a nodwyd yn y nodweddion da:

- Parhau â'r arferion da a nodwyd (5 ysgol o ran Addysg Grefyddol, 4 ysgol o ran addoli ar y cyd).
- Gweithredu system i asesu cyflawniad disgyblion mewn Addysg Grefyddol, gan ddefnyddio'r ffurflen gan CYSAG/AALI, y Deunyddiau Asesu Dewisol gan ACCAC, neu ddull arall a fydd yn caniatáu mesur a chofnodi'r cynnydd.

Roedd un argymhelliad arall yn gyffredin i ddwy ysgol:

- Nodi sut yr ymdrinir â'r rhaglenni astudio yn y Maes Llafur Cytunedig yn y cynllun gwaith (2 ysgol)

Roedd y gweddill yn berthnasol i ysgolion unigol:

- Parhau â'r arferion da a nodwyd, a'r gwaith o adennill tir yn dilyn y tân.
- Rhoi'r targedau arfaethedig yn y Cynllun Datblygu ar waith, yn enwedig:
  - datblygu'r cyswllt rhwng cynradd/uwchradd, ac adfer cysylltiadau

ag ysgolion cynradd lleol

- cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ôl-16

- Wrth adolygu'r cynllun gwaith, sicrhau bod y tasgau i ddisgyblion yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ymateb yn bersonol ac ymdrin ag arwyddocad crefyddol y topigau dan sylw.
- Cwblhau'r gwaith o adnewyddu'r polisi addoli ar y cyd, a'r gwelliannau arfaethedig i'r patrwm i'r ysgol, fel a drafodwyd.
- Nodi sut yr ymdrinir â'r rhaglenni astudio yn y Maes Llafur Cytunedig
- Llunio rhestr o storïau Beiblaidd i'w defnyddio yn y Cynllun Addysg Grefyddol, y rhai a ddefnyddir yn rheolaidd mewn gweithgareddau addoli ar y cyd, a'r rhai y dylid eu cyflwyno i'r disgyblion os yn bosibl ar ryw adeg yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- Parhau i ddatblygu cyflwyno'r cynllun yn y modd cadarnhaol ac eglur sy'n bodoli eisoes.
- Gweithredu i sicrhau bod y gweithredoedd addoli yn cynnwys elfen grefyddol neu Gristnogol glir, er mwyn cydymffurfio â gofynion statudol.
- Mireinio rhagor ar y cynllun gwaith drwy (a) gyflawni arolwg o'r elfennau Cwricwlwm Cymreig ynddo, a (b) rhoi mwy o sylw cydlynus i elfennau tymhorol.
- Cyfleoedd i'r Cydlynnydd adolygu samplau o lyfrau yn fwy ffurfiol (ar y cyd ag uwch staff efallai), ac ystyried arsylwi ar wersi.
- Bod yr ysgol yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnwys y gymuned ffydd leol mewn gwasanaethau addoli ar y cyd o dro i dro.
- Cyflawni'r diwygiadau arfaethedig i'r cynllun sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

**SYLWADAU CYD-DESTUNOL: ADRODDIADAU AROLWG**  
**CYSAG SIR DDINBYCH**  
**03/07/2006**

**6 o Ysgolion**

<b>Ysgol</b>	<b>Dyddiadau</b>	<b>Arolygwr Cofrestredig</b>	<b>Arolygwr SMSC/ Cwestiwn Allweddol 3</b>	<b>Arolygwr AG</b>
<b>Bro Cinmeirch</b>	<b>17 – 19 Hyd 2005</b>	<b>Len Jones</b>	<b>Gwenan Ll. Williams</b>	<b>Gwenan Ll. Williams</b>
<p><i>Mae Ysgol Bro Cinmeirch yn Ysgol Gynradd Gymunedol, wedi ei lleoli rhwng Eglwys a phentref Llanrhaeadr yng Nghinmeirch. Mae'n cael ei chynnal gan Awdurdod Addysg Lleol Sir Ddinbych. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal leol, ac mae deunaw o ddisgyblion yn dod o ardal ehangach, gan gynnwys tref Dinbych. Mae canran sylweddol o'r disgyblion sy'n dod o'r tu allan i'r dalgylch yn mynychu'r ysgol oherwydd bod eu rhieni'n dymuno i'w plant dderbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd y mae 57 o ddisgyblion ar y gofrestr, naw ohonynt yn blant dosbarth meithrin sy'n mynychu'r ysgol yn y boreau yn unig. Mae'r ysgol o'r farn fod yr ardal y mae'r disgyblion yn hanu ohoni'n un weddol freintiedig. Mae gan 2% o'r disgyblion hawl i brydau ysgol am ddim. Mae naw disgybl ar y rhestr AAA, gan gynnwys un disgybl sy'n destun datganiad AAA. Mae tua 50% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith siarad, ond mae 90% o'r disgyblion yn yr ysgol yn gallu siarad Cymraeg i safon iaith gyntaf. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Tachwedd 1999. Ers hynny, cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion ar y gofrestr.</i></p>				
<b>Ysgol Tremeirchion</b>	<b>5 Rhagfyr 2005</b>	<b>Len Jones</b>	<b>Glyn Griffiths</b>	<b>Y Parch T Roberts — Adran 50</b>
<p><i>Mae Ysgol Tremeirchion wedi ei lleoli yn y pentref, sydd tua phedair milltir o Lanelwy. Y mae'n ysgol Gymraeg ddynodedig, dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r ysgol yn cael ei chynnal gan AAL Sir Ddinbych. Dim ond lleiafrif o'r disgyblion sy'n hanu o'r pentref. Mae'r mwyafrif yn cael eu cludo o bentrefi megis Rhuallt, Trefnant a Chaerwys, ac o Lanelwy ei hun. Maent yn dod yno er mwyn manteisio ar yr addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, er nad oes ond 50% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad fel y brif iaith. Mae'r ysgol yn datgan bod 75% o'r disgyblion yn gallu siarad Cymraeg i safon iaith gyntaf. Mae'r ardal y mae'r disgyblion yn hanu ohoni'n cael ei disgrifio fel un freintiedig. Mae 4% o'r disgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim. Yn ystod yr arolwg yr oedd 53 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, naw ohonynt o oed meithrin ac yn mynychu'r ysgol yn y boreau yn unig. Mae'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn tri dosbarth yn y bore ac mewn dau ddsbarth yn ystod y prynhawn. Mae pedwar disgybl ar y gofrestr AAA, ac mae un ohonynt yn destun datganiad AAA. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Medi 1999.</i></p>				
<b>Ysgol Dyffryn Iâl</b>	<b>20 Mawrth 2006</b>	<b>Phil Mostert</b>	<b>Gwenan Williams</b>	<b>Gwenan Williams</b>
<p><i>Mae Ysgol Dyffryn Iâl yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr gan yr Eglwys yng Nghymru. Y mae wedi ei lleoli ar ddau safle, ym mhentrefi Bryneglwys a Llandegla, chwe milltir oddi wrth ei gilydd. Y mae'n ysgol categori C, sef ysgol lle mae canran o'r disgyblion yn dysgu'r pynciau craidd trwy gyfrwng y Gymraeg, a chanran ohonynt drwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer 4 o ddisgyblion rhan-amser a 44 o ddisgyblion amser llawn. Adeg yr arolwg, yr oedd Ysgol Dyffryn Iâl wedi ei chlystru gydag Ysgol Llantysilio, dair milltir o Langollen; mae Pennaeth yr ysgol honno'n Bennaeth ar yr ysgol hon hefyd. Saesneg yw'r brif iaith a siaredir yn y cartref gan 86% o'r disgyblion. Mae'r ysgol yn disgrifio natur cefndir y disgyblion fel un ffyniannus at ei gilydd. Mae gan 5% o'r disgyblion hawl i brydau ysgol am ddim. Mae gan 10 (23%) o'r disgyblion anghenion addysgol arbennig (AAA) — canran ychydig uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Nid oes unrhyw ddisgybl yn destun datganiad AAA. Cafodd yr ysgol ei</i></p>				

<i>harolygu ddiwethaf ym mis Ebrill 2000. Mae'r ysgol wedi cael pedwar gwahanol Bennaeth dros y flwyddyn ddiwethaf.</i>				
<b>Ysgol Uwchradd Dinbych</b>	<b>20 Mawrth 2006</b>	<b>Terence O'Marah</b>	<b>S Glyn Davies</b>	<b>Ni chynhaliwyd Arolwg</b>
<i>Mae Ysgol Uwchradd Dinbych yn ysgol gyfun gymysg Saesneg ei chyfrwng ar gyfer disgyblion 11 i 19 oed. Ar hyn o bryd mae 955 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 124 o fyfyrwyr Chweched Dosbarth. Y mae sawl siaradwr Cymraeg ymhlith y staff. Mae disgyblion Cymraeg eu hiaith yn ffurfio rhan o boblogaeth yr ysgol hefyd. Y mae 33 o ddisgyblion sy'n destun datganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae gan 13.8% disgyblion yr hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer yr Awdurdod Unedol, ac islaw'r ffigwr cyfatebol ar gyfer Cymru. Cafodd yr Arolwg diwethaf ei gynnal yn 2000. Mae hyd at 15 o ysgolion cynradd (rhai ohonynt yn rhai bychain iawn) yn bwydo disgyblion i'r ysgol. Bechgyn yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yr ysgol. O ran gallu a phroffil cymdeithasol, mae'r ysgol yn gwbl gymysg. Mae'r disgyblion yn dangos yr ystod lawn o ddoniau a galluoedd, ac yn dod o'r ystod lawn o gefndiroedd cymdeithasol. Mae disgyblion gydag amrywiaeth eang o anghenion arbennig yn mynychu'r ysgol, sydd wedi ei chynllunio i ganiatáu mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn. Mae'r ysgol wedi ei chysylltu trwy goridor ag Ysgol Plas Brondyffryn, ysgol arbennig ar gyfer pobl ifainc ar y sbectrwm awtistig. Mae'r disgyblion yn defnyddio ystafell fwyta Ysgol Uwchradd Dinbych ac yn ymuno â rhai gwersi; weithiau byddant yn symud drosodd yn gyfan gwbl i addysg brif lif. Mae'r ysgol wedi ei lleoli ynghanol caeau chwarae helaeth ag yn gyfagos â'r Ganolfan Hamdden Gymunedol; defnyddir cyfleusterau'r ganolfan gan yr ysgol yn ystod y diwrnod ysgol. Mae'r ysgol wedi wynebu llawer o anawsterau ariannol yn y gorffennol, ac mae ei chyllideb yn parhau i fod yn isel.</i>				
<b>Ysgol Carrog</b>	<b>27 Mawrth 2006</b>	<b>Merfyn D Jones</b>	<b>Kerry Knapper</b>	<b>Merfyn D Jones</b>
<i>Mae Ysgol Carrog yn ysgol sirol fechan a gynhelir gan y sir, ac mae'n gwasanaethu pentref Carrog, ger Corwen yn Sir Ddinbych. Y mae'n darparu ar gyfer disgyblion rhwng 3 a 11 oed. Yn ôl yr ysgol, nid yw'r ardal naill ai'n ffyniannus na than anfantais economaidd. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid oes gan unrhyw ddisgybl hawl i brydau ysgol am ddim. Mae 1 disgybl 'dan ofal' yr Awdurdod Lleol. Ar hyn o bryd y mae 39 o blant ar y gofrestr, ac mae un plentyn oed meithrin yn derbyn addysg ran-amser. Mae'r disgyblion yn dod o'r pentref a'r ardal oddi amgylch. Mae lleiafrif o'r disgyblion (5%) yn dod o gartrefi sydd â'r Gymraeg yn brif iaith. Mae gan 2 ddisgybl ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA), ac mae 3 disgybl yn dod dan ddarpariaethau 'school action plus' y Cod Ymarfer ar gyfer AAA. Gan gynnwys y Pennaeth, y mae 2 o staff cymorth dosbarth amser llawn, a nyrs feithrin ran-amser. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn 2000.</i>				
<b>Ysgol Hiraddug</b>	<b>29 Mawrth 2006</b>	<b>Mervyn Ll-Jones</b>	<b>Meiriol Meredith-Jones</b>	<b>Ni chynhaliwyd Arolwg</b>
<i>Mae Ysgol Hiraddug yn Ysgol Gynradd Gymunedol a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac wedi ei lleoli ym mhentref Dyserth ym mhen gogledd-ddwyreiniol Dyffryn Clwyd, Sir Ddinbych. Mae gan yr ysgol 218 o ddisgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed ar y gofrestr. Ceir yr ystod lawn o allu ymhlith y disgyblion. Mae 3 disgybl yn destun datganiad o anghenion addysgol arbennig, ac mae 27 o ddisgyblion eraill yn derbyn cefnogaeth ychwanegol dan ddarpariaethau 'school action' neu 'school action plus'. Mae'r disgyblion wedi eu trefnu mewn saith dosbarth. Yn ôl yr ysgol, mae'r disgyblion yn dod o gefndir sy'n cael ei ddisgrifio fel un nad yw naill ai'n ffyniannus na than anfantais economaidd. Yr oedd 11% o'r disgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim. Saesneg yw'r iaith a siaredir yn bennaf yn y cartrefi. Mae 1% o'r disgyblion o darddiad Caribiaidd neu Asiaidd. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn 2000.</i>				



**Dadansoddiad o'r Adroddiadau ar Arolygon**  
**CYSAG Sir Ddinbych**  
**3 Gorffennaf 2006**

**DATBGLYGIAD YSBRYDOL, MOESOL, CYMDEITHASOL A DIWYLLIANNOL**

**Ystyriaethau Allweddol:** **1 Ysgol**  
— *Hybu'r Cwricwlwm Cymreig, mewn cynllunio byrdymor yn fwy penodol (Ysgol Carrog)*

**SYLWADAU CADARNHAOL**

**Gweithgareddau/Cyfleoedd Allgyrsiol** **6 Ysgol**

- Mae'r disgyblion yn cael budd o gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau addysgol. Mae'r ddarpariaeth hon yn gwella profiadau ysgol a datblygiad personol y disgyblion.  
*(Ysgol Bro Cinmeirch)*
- Mae'r dilyniant rhwng gwersi, a'r cysylltiadau rhyngddynt a'r gweithgareddau allgyrsiol, yn un o nodweddion hynod yr ysgol. Ceir enghreifftiau rhagorol o ymweliadau â'r gymuned a thu hwnt, sydd yn ddull o gyfoethogi profiadau'r holl ddisgyblion.  
*(Ysgol Tremeirchion)*  
Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol i'r disgyblion, megis gweithgareddau'r Urdd, canu mewn côr, pêl-droed a phêl-rwyd. Mae amrywiaeth eang o ymweliadau addysgol yn cael eu cynnig yn ogystal, ac mae'r rhain yn cyfoethogi eu datblygiad addysgol a phersonol yn dda. *(Ysgol Tremeirchion)*
- Mae cyfarfod o aelodau'r Urdd yn yr ysgol yn cael ei gynnal bob wythnos. *(Ysgol Tremeirchion)*  
Mae profiadau disgyblion yn cael eu hybu trwy ystod dda o weithgareddau allgyrsiol sydd wedi eu trefnu'n ddiweddar, gan gynnwys clwb gwyddbwyll, pêl-rwyd a phêl-droed. Cymerodd rhai disgyblion ran mewn sgwad ysgrifennu a dosbarthiadau meistr mewn mathemateg. Mae disgyblion yn CA1 wedi ymweld â Chwarel Aberduna, ac mae pob disgybl wedi plannu coed yn y gymdogaeth.  
*(Ysgol Dyffryn lân)*
- Mae'r staff yn trefnu ymweliadau addysgol, ac yn cynnig clybiau ar-ôl-ysgol diddorol. *(Ysgol Dyffryn lân)*
- Mae gan yr amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol ar gyfer pob grŵp blwyddyn nodweddion da sy'n gorbwyso'r gwendidau. Mae cynrychiadau ysgol yn llwyddiannus iawn ac mae nifer fawr o

ddisgyblion a myfyrwyr yn cymryd rhan. Mae disgyblion a myfyrwyr yn cael budd hefyd o ymweliadau ag orielau a theatrau, ymweliadau maes daearyddol, a thaith sgïo. (*Ysgol Uwchradd Dinbych*)

- Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o weithgareddau allgyrsiol sydd yn agored i'r holl ddisgyblion. Mae cynrychiolwyr o Chwaraeon Ysgol y Ddraig ac Urdd Gobaith Cymru'n cynnal sesiynau hyfforddiant amser cinio mewn chwaraeon gyda disgyblion yn ystod y flwyddyn. Mae profiadau o'r fath yn meithrin cyneddfau cydweithredu ac ymdrech unigol. Mae amcanion cwricwlaidd yn cael eu cyfoethogi gan ymweliadau addysgol rheolaidd. Mae mwy o annibyniaeth a chydweithrediad yn cael eu hybu ymysg disgyblion hŷn yn ystod ymweliadau preswyl, megis y rhai y maent yn eu talu â Chanolfan Glan-llyn yn y Bala, a Chanolfan yr Urdd yng Nghaerdydd. (*Ysgol Carrog*)
- Mae'r ddarpariaeth allgyrsiol yn adlewyrchu cynhwysiad addysgol a chymdeithasol cyflawn. (*Ysgol Hiraddug*)

## Y Cwricwlwm Cymreig / Y Dimensiwn Cymreig

## 5 Ysgol

- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu sgiliau dwyieithrwydd yn un o nodweddion arbennig yr ysgol. (*Ysgol Tremeirchion*)
- Mae'r ysgol yn rhoi llawer o bwyslais ar wella dealltwriaeth y disgyblion o'u treftadaeth Gymreig, a'u meithrin mewn gweithgarwch sy'n adlewyrchu'r diwylliant hwnnw. (*Ysgol Tremeirchion, Adran 50*)
- Mae'r ysgol yn cymryd rhan hefyd mewn gweithgareddau diwylliannol eraill megis Eisteddfodau lleol a chenedlaethol. (*Ysgol Tremeirchion, Adran 50*)
- Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais ar astudio treftadaeth Cymru a'r Cwricwlwm Cymreig. Mae'r ysgol yn cymryd rhan amlwg mewn dathliadau crefyddol ac yn cystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd. (*Ysgol Dyffryn Iâl*)
- Mae athrawon yn defnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol ym mhob ystafell ddosbarth. (*Ysgol Dyffryn Iâl*)
- Mae llawer o weithgareddau allgyrsiol yn cael eu trefnu gan Adran y Gymraeg ar gyfer yr holl gyfnodau allweddol, er mwyn helpu i ddatblygu hyder a sgiliau dwyieithog disgyblion a myfyrwyr. Mae BI.7 yn mynd ar gwrs preswyl yng Nglan-llyn, ac mae ymweliadau eraill yn cael eu trefnu â'r theatr a lleoliadau eraill. Mae eisteddfod yr ysgol yn ddigwyddiad blynyddol pwysig yng nghalendr yr ysgol, ac mae pob adran yn gwneud cyfraniad. Ceir arwyddion ac arddangosfeydd o gwmpas yr ysgol, ac mae holl ohebiaeth yr ysgol gyda rhieni'n ddwyieithog. Mae gwersi tiwtoraidd yn cael eu cynnal yn Gymraeg ar gyfer disgyblion iaith gyntaf. (*Ysgol Uwchradd Dinbych*)
- Mae archwiliad manwl wedi ei gynnal er mwyn nodi'r gwahanol ddulliau o fynd i'r afael â'r Cwricwlwm Cymreig ar draws yr holl feysydd cwricwlaidd. Mae'r rhan fwyaf o'r adrannau'n cyfuno agweddau'r Cwricwlwm Cymreig yn llwyddiannus â'u cynlluniau gwaith. (*Ysgol Uwchradd Dinbych*)
- Mae dealltwriaeth disgyblion o'u diwylliant eu hunain a diwylliannau'r byd yn cael ei gwella'n neilltuol trwy ymweld ag Eisteddfod Ryngwladol flynyddol Llangollen a chymryd rhan ynddi. (*Ysgol Carrog*)

- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dwyieithrwydd yn dda mewn llawer agwedd ar waith yr ysgol. Mae'r Cwricwlwm Cymreig a'r agweddau amlddiwylliannol ar y cwricwlwm yn cael eu cynllunio'n bur fanwl. (*Ysgol Hiraddug*)

### **Arferion /Hybu Gwerthoedd /Moesgarwch /Parch**

**5 Ysgol**

- Mae gan ddisgyblion ymdeimlad clir o berchenogaeth a chyfrifoldeb tuag at yr ysgol a'i hamgylchedd. (*Ysgol Bro Cinmeirch*)
- Mae'r ysgol yn gymuned hapus a diogel lle mae gwerthoedd megis parch, goddefgarwch, cyfeillgarwch a hunanddisgyblaeth yn cael eu hybu'n effeithiol. (*Ysgol Tremeirchion, Adran 50*)
- Mae'r staff yn gweithio'n galed i sefydlu ethos sy'n cyfrannu at feithrin datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion. Mae cynllun masnachol yn cael ei ddefnyddio i ategu'r gwaith hwn. Mae'r staff yn darparu amgylchedd cartrefol, diogel a gofalgwr, ac mae ganddynt berthynas dda â'r rhan fwyaf o'r disgyblion. (*Ysgol Dyffryn lâl*)
- Mae mwyafrif y disgyblion yn dangos parch tuag at ei gilydd, at oedolion ac at amgylchedd yr ysgol ac ymwelwyr â hi. (*Ysgol Uwchradd Dinbych*)
- Mae athrawon yn hybu priodoleddau cyfiawnder a thegwch yn dda. (*Ysgol Carrog*)
- Mae'r disgyblion yn cael eu hannog i ofalu amdanynt ei gilydd mewn ysbryd o gydweithrediad a chymdogrwydd. (*Ysgol Carrog*)

### **Ymwybyddiaeth/Hyrwyddiad o Ddatblygu Cynaliadwy**

**5 Ysgol**

- Mae'r sylw sy'n cael ei roi i ddatblygu cynaliadwy yn nodwedd eithriadol. Mae'r ysgol yn ailgylchu, yn astudio cyflenwadau dŵr, ac yn ymweld â melinau gwynt. (*Ysgol Bro Cinmeirch*)
- Mae gan yr ysgol strategaethau ar gyfer hybu datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, ac mae disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd trwy arferion megis ailgylchu papur a'u gwaith yng ngardd yr ysgol. (*Ysgol Tremeirchion*)  
Mae'r ysgol wedi cyflwyno rhai strategaethau i hybu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy, megis cyfundrefn ailgylchu a gwaith sy'n golygu gofalu am yr amgylchedd ar y cyd â'r Parc Cenedlaethol. (*Ysgol Dyffryn lâl*)
- Ceir rhai nodweddion da o ran hybu ymwybyddiaeth o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae'r rhain yn cynnwys:
  - polisi ysgol ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang;
  - eco-gyngor sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob blwyddyn
  - ymdriniaeth dda â'r pwnc yn y cynlluniau gwaith daearyddiaeth, addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd, a gwyddoniaeth; a
  - chefnogaeth ariannol gan y Clwb Rotari lleol i redeg prosiect ailgylchu. (*Ysgol Uwchradd Dinbych*)
- Mae'r sylw sy'n cael ei roi i ddatblygu cynaliadwy, er enghraifft drwy brosiectau ailgylchu, yn dda iawn. Mae'r ysgol wedi ennill cydnabyddiaeth fel Eco-Ysgol. (*Ysgol Hiraddug*)

### **Cysylltiadau gyda'r Gymuned Leol**

**4 Ysgol**

- Mae'r disgyblion yn ymweld â'r eglwys leol, a bydd y Ficer weithiau'n cynnal gwasanaethau yn yr ysgol. (*Ysgol Bro Cinmeirch*)
- Mae hon yn ysgol gymunedol, ac felly ceir cyswllt agos gyda gwahanol aelodau a sefydliadau'r gymuned. (*Ysgol Bro Cinmeirch*)
- Mae ymweliadau swyddog cyswllt yr heddlu ag ysgolion yn cael eu hymgorffori yng nghwricwlwm ABCh yr ysgol, ac yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau gwaith ar gyfer CA1 a CA2. (*Ysgol Tremeirchion*)
- Mae perthynas agos yr ysgol â'r Eglwys yn cyfoethogi datblygiad ysbrydol y disgyblion, ac mae'r Ficer yn dod i mewn i'r ysgol yn rheolaidd i arwain y gwasanaethau cydaddoliad. (*Ysgol Tremeirchion*)
- Mae disgyblion yn yr ysgol yn cymryd rhan mewn nifer o gêmiau yn erbyn ysgolion eraill, ac yn cyfrannu at weithgareddau lleol yn y gymuned. Ceir cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn dramâu, ac mae côr yr ysgol yn canu mewn cyngherddau lleol yn yr Eglwys, yn ogystal â chystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd. (*Ysgol Tremeirchion*)
- Mae swyddog cyswllt Heddlu Gogledd Cymru ag ysgolion yn arwain sesiynau ABCh gyda disgyblion bob pythefnos. (*Ysgol Tremeirchion*)
- Mae'r ysgol yn cynnal ei chysylltiadau â'r Eglwys trwy'r offeiriad plwyf lleol, sydd yn Llywodraethwr Sefydledig ac yn Gadeirydd presennol Corff Llywodraethol yr ysgol, a thrwy ymweliadau achlysurol Ymwelydd yr Esgob. (*Ysgol Tremeirchion, Adran 50*)
- Mae gan yr ysgol berthynas dda iawn â'i chymuned, ac yn enwedig gyda'r gymuned eglwysig. (*Ysgol Tremeirchion, Adran 50*)
- Mae addysg iechyd, gan gynnwys addysg rhyw, yn cael ei chefnogi'n dda gan y nyrs gymunedol, drwy'r cwricwlwm a thrwy gysylltiad yr ysgol â'r prosiect Ysgolion Iach. Mae'r heddwys gymunedol yn darparu gwersi ynglŷn â chamddefnyddio sylweddau, a diogelwch personol. (*Ysgol Carrog*)
- Mae'r berthynas rhwng yr ysgol, rhieni a'r gymuned leol yn dda iawn. Mae Ysgol Carrog yn ganolbwynt i'r gymuned, ac mae'n darparu'r cydlynrwydd sy'n ei galluogi i ffynnu. Y mae'n amlwg, ar sail y cyfarfod cyn-arolwg, fod y rhieni'n ymfalchïo yn eu hysgol bentref ac yn yr hyn y mae'n ei ddarparu ar gyfer cenedlaethau olynol o'u plant. (*Ysgol Carrog*)
- Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth ragorol o brofiadau cyfoethogol o ansawdd da ar gyfer disgyblion, gan gynnwys ymweliadau addysgol, siaradwyr sy'n ymweld, cyfleoedd chwaraeon, hyfforddiant cerddorol, cyrsiau preswyl, a nifer o glybiau ar ôl ysgol. (*Ysgol Hiraddug*)
- Mae disgyblion yn chwarae rhan weithgar iawn ym mywyd y gymuned. Mae eu cyfraniadau at elusennau, a digwyddiadau lleol megis Gŵyl Gelfyddydau'r Fro, yn dda. (*Ysgol Hiraddug*)

## **Dinasyddiaeth Fyd-eang /Addysg Ryngwladol /Cysylltiadau Rhyngwladol**

### **4 Ysgol**

- Mae'r sylw sy'n cael ei roi i ddatblygu cynaliadwy yn nodwedd eithriadol. Mae'r ysgol yn ailgylchu, yn astudio cyflenwadau dŵr, ac yn ymweld â melinau gwynt. Mae cyswllt rheolaidd yr ysgol gydag ysgol yng Nghenia'n werthfawr, ac y mae hefyd yn cyfrannu at

ddealltwriaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang. (*Ysgol Bro Cinmeirch*)

- Mae elfennau o'r cwricwlwm ac ychydig o sesiynau addoli'n cyfrannu at ymwybyddiaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang. (*Ysgol Dyffryn lâl*)
- Ceir rhai nodweddion da o ran hybu ymwybyddiaeth o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae'r rhain yn cynnwys:
  - polisi ysgol ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang;
  - eco-gyngor sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob blwyddyn
  - ymdriniaeth dda â'r pwnc yn y cynlluniau gwaith ar gyfer daearyddiaeth, addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd, a gwyddoniaeth; a
  - chefnogaeth ariannol gan y Clwb Rotari lleol i redeg prosiect ailgylchu (*Ysgol Uwchradd Dinbych*)
- Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn o ran datblygu dealltwriaeth o'u rolau fel dinasyddion byd-eang. Mewn un gwasanaeth dosbarth, trafododd y disgyblion fywydau plant ledled y byd, gan gynnwys Rwsia, gwledydd Affrica, ac Awstralia. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd Masnach Deg. (*Ysgol Hiraddug*)

#### **Y Rhaglen ar gyfer /Effaith y Ddarpariaeth ABCh**

**4 Ysgol**

- Cafodd cynllun ABCh, sy'n cynnwys sesiynau Amser Cylch, ei baratoi'n ddiweddar. (*Ysgol Dyffryn lâl*)
- Mae addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd yn cael ei darparu gan dîm arbenigol o athrawon. (*Ysgol Uwchradd Dinbych*)
- Mae'r rhaglenni ar gyfer addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd, addysg gysylltiedig â gwaith, ac addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd yn bodloni canllawiau cenedlaethol ac wedi eu cynllunio'n dda yn y cwricwlwm. (*Ysgol Uwchradd Dinbych*)
- Mae'r cwricwlwm yn cydymffurfio ym mhob ffordd â gofynion cyfreithiol, ac mae'r ysgol yn cymryd y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol i ystyriaeth yn dda. (*Ysgol Carrog*)
- Mae trefn yr ysgol ar gyfer hybu datblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion yn rhagorol o ran ei chydlynrwydd a'i hamrediad. Mae'r clod a'r gwobrwyon am ymddygiad cadarnhaol, sydd yn dra ystyriol ac yn cael eu gweithredu'n gyson, a'r cysylltiadau gyda'r cartref, yr heddlu ac asiantaethau eraill, yn helpu disgyblion i barchu agweddau, teimladau a gwerthoedd pobl eraill, ac yn datblygu'r syniad o ddinasyddiaeth trwy gysylltiadau â chyngor yr ysgol. (*Ysgol Hiraddug*)

#### **Darpariaeth o Ddatblygiad YMCD**

**3 Ysgol**

- Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn cael ei hybu'n dda. (*Ysgol Tremeirchion*)
- Mae gan ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr rai nodweddion sy'n gorbwysu'r gwendidau. (*Ysgol Uwchradd Dinbych*)

- Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth gyfoethog o brofiadau dysgu er mwyn datblygu ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion. *(Ysgol Carrog)*

### **Elusennau ac Achosion Da**

### **3 Ysgol**

- Mae datblygiad moesol disgyblion yn cael ei hybu trwy eu gweithgareddau codi arian at achosion da, a thrwy'r cyngerdd blynyddol a'u hymweliadau â phobl oedrannus. *(Ysgol Tremeirchion)*
- Mae'r disgyblion yn casglu blychau Nadolig ar gyfer 'Operation Christmas Child', i helpu plant llai ffodus mewn gwledydd tramor. Mae hyn, ynghyd â'u gwaith ar Botswana, yn cyfoethogi eu hymwybyddiaeth o Ddinasyddiaeth Fyd-eang. *(Ysgol Tremeirchion)*
- Drwy'r cydaddoliad yn bennaf y mae'r disgyblion yn dod i ddeall yr anghenion sydd gan rai pobl yn y byd, a sut orau y gallant helpu'r bobl hynny. Mae'r disgyblion a'u rhieni'n haeddu clod am y cyfraniadau hael y maent yn eu gwneud at waith elusennol yn lleol ac yn genedlaethol. Yn ystod y flwyddyn ysgol gyfredol, cafodd arian ei godi at 'Operation Christmas Child', Cymorth Cristnogol, ac Apêl Dydd Gŵyl Ddewi dros waith Elusen Marie Curie. *(Ysgol Tremeirchion, Adran 50)*
- Mae sylw priodol yn cael ei roi i elfennau megis helpu pobl lai ffodus. Mae gweithgareddau codi arian yn cael eu cynnal yn rheolaidd. *(Ysgol Dyffryn lâl)*
- Cefnogi elusennau megis Apêl De-ddwyrain Asia a chodi taliadau misol i helpu plentyn yn Ethiopia. Mae'r prosiectau hyn yn cyfrannu'n gadarn hefyd at ddatblygiad dealltwriaeth disgyblion o'u lle fel dinasyddion byd-eang. *(Ysgol Hiraddug)*

### **Datblygiad/Darpariaeth Moesol (a Chymdeithasol)**

### **3 Ysgol**

- Mae datblygiad moesol disgyblion yn cael ei hybu trwy eu gweithgareddau codi arian at achosion da, a thrwy'r cyngerdd blynyddol a'u hymweliadau â phobl oedrannus. *(Ysgol Tremeirchion)*
- Mae nodweddion da'n gorbwyso gwendidau yn natblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion. *(Ysgol Dyffryn lâl)*
- Mae'r ysgol yn gwneud darpariaeth dda (ac weithiau da iawn) ar gyfer datblygiad moesol a chymdeithasol disgyblion. *(Ysgol Hiraddug)*

### **Datblygiad Diwylliannol**

### **3 Ysgol**

- Mae'r ysgol yn gwneud defnydd o sefydliadau megis Gwersylloedd yr Urdd a Chanolfannau Gweithgareddau Awyr Agored er mwyn cynnig profiadau i ddisgyblion o addysg ddiwylliannol, a thrwy hynny eu hysbrydoli i werthfawrogi'r amgylchedd hardd sydd i'w gael yng nghymdogaeth eu hysgol ac o'i chwmpas. *(Ysgol Tremeirchion, Adran 50)*
- Rhoddir llawer o gyfleoedd i ddisgyblion archwilio amrywiaeth ddiwylliannol drwy'r cwricwlwm, a thrwy gysylltiadau gyda myfyrwyr o

dramor sy'n mynychu'r Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Hyfforddiant a Chydweithio Rhanbarthol yn Llangollen ac sy'n ymweld â'r ysgol. (Ysgol Carrog)

- Mae datblygiad diwylliannol yn cael ei hybu'n dda wrth astudio daearyddiaeth, addysg grefyddol a hanes. (Ysgol Hiraddug)

### **Gwaith Cyngor yr Ysgol**

**3 Ysgol**

- Mae disgyblion a myfyrwyr yn cael eu hannog i fynegi barn a lleisio pryderon drwy'r Cynghorau Blwyddyn a Chyngor yr Ysgol. (Ysgol Uwchradd Dinbych)
- Mae gan yr ysgol Gyngor Disgyblion sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion, a phenderfyniadau sydd wedi eu gwneud, sy'n ymwneud â'u haddysg, ac i leisio barn yn eu cylch. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd i'r disgyblion fagu hyder a dod yn bobl gyfrifol. (Ysgol Tremeirchion, Adran 50)
- Mae aelodau cyngor yr ysgol yn cynrychioli pob dosbarth ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. (Ysgol Hiraddug)

### **Cyfleoedd Cyfartal**

**3 Ysgol**

- Mae gan yr ysgol bolisi cynhwysfawr ynglŷn â chyfle cyfartal, sy'n cael ei hybu trwy wersi addysg grefyddol ac ABCh. Mae'r ysgol yn sicrhau bod pob disgybl yn gallu cymryd rhan yn holl weithgareddau'r ysgol, waeth beth fo'i r(h)yw a'i (g)allu. (Ysgol Tremeirchion)
- Mae gan yr ysgol ddogfennau polisi cynhwysfawr ynglŷn â chyfle cyfartal. (Ysgol Tremeirchion, Adran 50)
- Mae gan yr ysgol bolisi cyfle cyfartal sy'n cael ei adlewyrchu mewn llawer agwedd ar fywyd yr ysgol, megis chwaraeon a gweithgareddau cymdeithasol eraill. (Ysgol Dyffryn lâl)
- Mae'r ysgol yn pwysleisio parch at bob disgybl trwy sicrhau cyfle cyfartal i'r holl ddisgyblion dan ei gofal. (Ysgol Hiraddug)

### **Cyfraniadau Disgyblion at Weithredoedd Cydaddoli**

**2 Ysgol**

- Pan gafodd rhai o ddisgyblion yr ysgol eu cyfweld, mynegasant ymwybyddiaeth gref o werth addoli ac o'r cyfle yr oedd yn ei roi iddynt weddio a bod ym mhresenoldeb Duw. (Ysgol Tremeirchion, Adran 50)
- Mae gweithredoedd cydaddoli yn adeg arbennig a phreifat pan fydd disgyblion yn cael cyfle i adfyfrio ar werthoedd Cristnogol a dyngarol. Mae disgyblion yn cael eu hannog i feddwl am faterion moesol, a rhannu eu meddyliau gydag eraill. Mae'r gydberthynas dda iawn sydd gan ddisgyblion gyda'u hathrawon bob amser yn sicrhau bod eu hymateb yn ystod eu cyd-gyfarfodydd yn ddidwyll a diffuant. (Ysgol Carrog)

### **Ansawdd Cydberthynas**

**2 Ysgol**

- Mae cydberthynas yn dda drwy'r ysgol. (Ysgol Uwchradd Dinbych)

- Mae'r gydbberthynas dda iawn rhwng disgyblion a'u hathrawon bob amser yn sicrhau bod eu hymateb yn ystod eu cyd-gyfarfodydd yn ddiidwyll a diffuant. (*Ysgol Carrog*)

### **Cyfleoedd i Adfyfrio**

**2 Ysgol**

- Mae'r cyfnodau cydaddoliad yn cydymffurfio â gofynion statudol ac yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion adfyfrio a datblygu gwerthoedd personol da. (*Ysgol Tremeirchion*)
- Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i adfyfrio ar werthoedd Cristnogol a dyngarol. (*Ysgol Carrog*)

### **Cyfraniad Cydaddoliad at Ddatblygiad YMCD**

**2 Ysgol**

- Mae cydaddoliad yn cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth disgyblion o faterion moesol, ac yn eu helpu i barchu gwirionedd a chyfiawnder. (*Ysgol Bro Cinmeirch*)
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol yn dda, yn enwedig mewn cydaddoliad, amser cylch ac addysg grefyddol. (*Ysgol Hiraddug*)

### **Ymweliadau ag Addoldai Lleol**

**2 Ysgol**

- Mae disgyblion yn ymweld â'r eglwys leol, a bydd y Ficer weithiau'n cynnal gwasanaethau yn yr ysgol. (*Ysgol Bro Cinmeirch*)
- Mae'r eglwys blwyf hardd, Corpus Cristi, wedi ei lleoli'n gyfagos â'r ysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio adeilad yr eglwys fel adnodd gwerthfawr ar gyfer addysgu disgyblion ynglŷn â'r Ffydd Gristnogol a'i harferiadau, ac i gynnal cydaddoliad gan yr ysgol gyfan unwaith y mis. Mae'r ysgol hefyd yn dathlu rhai o'r prif Wyliau Cristnogol yn Eglwys Corpus Cristi. (*Ysgol Tremeirchion, Adran 50*)

### **Datblygiad Ysbrydol**

**2 Ysgol**

- Mae nodweddion da'n gorbwyso gwendidau yn natblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion. (*Ysgol Dyffryn Iâl*)
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol yn dda, yn enwedig mewn cydaddoliad, amser cylch ac addysg grefyddol. (*Ysgol Hiraddug*)

### **Cyfraniad Addysg Grefyddol at Ddatblygiad YMCD**

**2 Ysgol**

- Gwelwyd enghreifftiau o waith a oedd wedi ei wneud gan ddisgyblion mewn gwersi Addysg Grefyddol. Yr oedd hwn yn cynnwys gwaith ar y Flwyddyn Eglwysig, holiadur ynglŷn ag ymweliad a wnaed gan rai o'r disgyblion ag Eglwys Gadeiriol Llanelwy, a rhai canllawiau moesol a oedd yn deillio o ddameg Feiblaidd y Samariad Trugarog. Mae'r gwaith hwn, ynghyd â'r profiadau a geir yn ystod cydaddoliad, yn cyfrannu'n fawr at eu datblygiad ysbrydol a moesol. (*Ysgol Tremeirchion, Adran 50*)
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol yn dda, yn enwedig mewn cydaddoliad, amser cylch ac addysg grefyddol. (*Ysgol Hiraddug*)



**Cyfleoedd i Ysgwyddo Cyfrifoldeb a Dangos Blaengarwch** **1 Ysgol**

- Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd addas i ysgwyddo cyfrifoldeb am bobl eraill yn ogystal ag amdanynt eu hunain. Er enghraifft, mae'r drefn gyfeillio'n cael ei defnyddio'n dda gan ddisgyblion ar gyfer helpu eraill sydd angen eu cefnogaeth gyfeillgar. (*Ysgol Hiraddug*)

**Gwybodaeth / Dealltwriaeth / Ymwybyddiaeth o Ddiwylliannau neu Draddodiadau Eraill** **1 Ysgol**

- Mae disgyblion yn ymwybodol o ddiwylliant Cymru mewn llawer o bynciau, ac mae cyfleoedd ar gael, trwy gyfrwng diwrnodau ymwybyddiaeth amlddiwylliannol, i astudio diwylliannau eraill. (*Ysgol Uwchradd Dinbych*)

**Ansawdd Cydaddoliad** **1 Ysgol**

- Cafodd naws ysbrydol y ddwy weithred addoli ei gwella gan y defnydd o gannwyll wedi ei goleuo, y flaenlen grefyddol hardd a oedd yn hongian dros gefn y piano ac a oedd wedi ei chreu gan y disgyblion eu hunain, y dewis o gerddoriaeth gefndir glasur, a'r gweddïau pwrpasol a offrymwyd. Defnyddiwyd rhai gwersiglau Anglicanaidd hefyd. Yr oedd safon y canu'n dda. Er bod y disgyblion braidd yn aflonydd ar ddechrau'r addoli, yr oedd pob un yn ymwybodol o'r ffaith ei fod yn rhan o weithred addoli grefyddol. (*Ysgol Tremeirchion, Adran 50*)

**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o Dda a Drwg** **1 Ysgol**

- Y mae'n hybu ymdeimlad cryf o dda a drwg yn llwyddiannus ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng ymddygiad priodol ac ymddygiad amhriodol mewn gwahanol gyd-destunau. (*Ysgol Hiraddug*)

**Amcanion Cyffredinol /Ethos Cyffredinol** **1 Ysgol**

- Mae'r ysgol yn gymuned hapus a diogel, lle mae gwerthoedd megis parch, goddefgarwch, cyfeillgarwch a hunanddisgyblaeth yn cael eu hybu'n effeithiol. (*Ysgol Tremeirchion, Adran 50*)
- Mae'r disgyblion yn gwrtais, yn groesawgar, ac yn ymddwyn yn dda. (*Ysgol Tremeirchion, Adran 50*)
- Mae gan yr ysgol ethos Cristnogol cryf. (*Ysgol Tremeirchion, Adran 50*)

**Ymateb Disgyblion i'r Ddarpariaeth YMCD** **1 Ysgol**

- Pan gafodd rhai o ddisgyblion yr ysgol eu cyfweld, mynegasant ymwybyddiaeth gref o werth addoli ac o'r cyfle yr oedd yn ei roi iddynt weddio a bod ym mhresenoldeb Duw. (*Ysgol Tremeirchion, Adran 50*)

**Cyfleoedd am Gydweithrediad /Cydweithio** **1 Ysgol**

- Mae mwyafrif y disgyblion yn cydweithio'n dda yn y gwersi. (*Ysgol Uwchradd Dinbych*)

### **Cydymffurfiad â Gofynion Statudol am Gydaddoliad**

**1 Ysgol**

- Mae'r cyfnodau cydaddoliad yn cydymffurfio â gofynion statudol ac yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion adfyfrio a datblygu gwerthoedd personol da. (*Ysgol Tremeirchion*)

### **Nodweddion Gweithredoedd Cydaddoli**

**1 Ysgol**

- Mae cydaddoliad yn yr ysgol yn dilyn patrwm o themâu sydd wedi eu cysylltu â chwricwlwm yr ysgol ond sydd hefyd yn cyfeirio at y Calendr Eglwysig a'r prif Wyliau Cristnogol. (*Ysgol Tremeirchion, Adran 50*)

### **Datblygiad Cymdeithasol /Rhyngweithio /Sgiliau Rhyngpersonol**

**1 Ysgol**

- Ceir cyfleoedd i ddatblygu'n gymdeithasol trwy weithgareddau megis ymweliadau â'r ganolfan gweithgareddau awyr agored yn Nant Bwlch yr Haearn, cyfrannu at raglen deledu ar S4C, neu ganwio ar Lyn Tegid. (*Ysgol Tremeirchion*)

### **Cyfraniadau Pynciau Eraill at ddatblygiad YMCD**

**1 Ysgol**

- Mae profiadau dysgu'n hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda, ac yn rhoi sylw i faterion Addysg Personol a Chymdeithasol (ABCh). O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ymdeimlad clir o berchenogaeth a chyfrifoldeb tuag at yr ysgol a'i hamgylchedd. (*Ysgol Bro Cinmeirch*)

### **Ymwybyddiaeth Iechyd / Mentrau Ysgolion Iach**

**1 Ysgol**

- Mae'r ysgol eisoes wedi ennill achrediad ar gyfer Cam 1 y prosiect 'Ysgolion Iach'. Mewn cysylltiad â hyn, mae sgiliau mentergar disgyblion yn cael eu hybu trwy iddynt redeg siop ffrwythau'r ysgol, lle maent yn gyfrifol am archebu, prasio a gwerthu'r ffrwythau; maent hefyd yn gwerthu dŵr potel a chalendrau'r ysgol. (*Ysgol Tremeirchion*)

## **SYLWADAU NEGYDDOL**

### **Cyfleoedd i Ysgwyddo Cyfrifoldeb a Dangos Blaengarwch**

**1 Ysgol**

- Prin yw'r cyfleoedd i fyfyrwyr yn y chweched dosbarth ysgwyddo cyfrifoldeb a chefnogi eraill. (*Ysgol Uwchradd Dinbych*)

### **Y Cwricwlwm Cymreig / Y Dimensiwn Cymreig**

**1 Ysgol**

- Er bod athrawon yn defnyddio'r Gymraeg ym mhob ystafell ddosbarth, nid yw'r profiadau dysgu'n hybu sgiliau dwyieithrwydd disgyblion yn ddigonol. (*Ysgol Dyffryn Iâl*)

**Arferion /Hybu Gwerthoedd /Moesgarwch /Parch** **1 Ysgol**

- Y mae lleiafrif ymysg y disgyblion yn dangos diffyg parch at eraill trwy darfu ar eu gwersi. (*Ysgol Uwchradd Dinbych*)

**Cyfraniadau Disgyblion at Weithredoedd Cydaddoli** **1 Ysgol**

- Nid yw'r disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i gymryd rhan mewn sesiynau addoli ar y cyd neu fyfyrio ar eu credoau a'u gwerthoedd eu hunain. (*Ysgol Dyffryn Iâl*)

**Amcanion Cyffredinol /Ethos Cyffredinol** **1 Ysgol**

- Nid yw'r ysgol wedi cynnwys ei Datganiad Ethos, sy'n rhan o'i Offeryn Llywodraeth, ac sy'n ganolog i'w chenhadaeth fel ysgol eglwysig, yn ei phrosbectws na'i dogfennau polisi. O'r braidd y crybwyllir statws gwirfoddol yr ysgol yn y dogfennau y cynigiodd yr ysgol i'r Arolygwr. (*Ysgol Tremeirchion, Adran 50*)

**Cydymffurfiad â Gofynion Statudol am Gydaddoliad** **1 Ysgol**

- Mewn llawer o grwpiau tiwtor, ni cheir unrhyw gydaddoliad. (*Ysgol Uwchradd Dinbych*)
- Y methiant i ddarparu gweithred addoli ddyddiol ar gyfer yr holl ddisgyblion. (*Ysgol Uwchradd Dinbych*)

**Gweithgareddau Allgyrsiol** **1 Ysgol**

- Mae'r cyfleoedd cyfyngedig o ran gweithgareddau cerddorol, gornestau chwaraeon rheolaidd, a chlybiau sy'n cyfarfod yn ystod amser cinio, yn wendid. (*Ysgol Uwchradd Dinbych*)

**Datblygiad Ysbrydol** **1 Ysgol**

- Nid yw'r dimensiwn ysbrydol yn cael ei gynllunio ar draws rhai pynciau. (*Ysgol Uwchradd Dinbych*)

**Polisi ynglŷn â Chydaddoliad** **1 Ysgol**

- Nid oes gan yr ysgol ddogfen bolisi ynglŷn â Chydaddoliad; yn hytrach, mae ganddi restr o osodiadau sy'n gweithredu fel canllawiau er mwyn i'r ysgol gynhyrchu ei dogfen bolisi ei hun. Argymhellir bod y Llywodraethwr Sefydledig, gyda chydweithrediad y Pennaeth a chymorth y Swyddog Addysg Esgobaethol, yn cynhyrchu polisi cydaddoliad newydd ar gyfer yr ysgol. (*Ysgol Tremeirchion, Adran 50*)

**Gwaith Cyngor yr Ysgol****1 Ysgol**

- Mae Cyngor Ysgol wedi bodoli yn y gorffennol; fodd bynnag, ni fu'n weithredol ers tro bellach. (*Ysgol Dyffryn Iâl*)

**Ymwybyddiaeth /Hyrwyddiad o Ddatblygu Cynaliadwy****1 Ysgol**

- Nid yw'r disgyblion yn trafod yr elfen hon yn hyderus. (*Ysgol Dyffryn Iâl*)

**ADDYSG GREFYDDOL*****Ystyriaethau Allweddol:*****1 Ysgol**

- *Codi safonau yn y Gymraeg yn y ddau gyfnod allweddol ac mewn addysg grefyddol yn CA2. (Ysgol Bro Cinmeirch)*

**SYLWADAU CADARNHAOL****Safonau Cyflawniad****3 Ysgol**

- Cyfnod Allweddol 1 — Gradd 2: Nodweddion da a dim gwendidau o bwys (*Ysgol Bro Cinmeirch*)
- Cyfnod Allweddol 2 — Gradd 3: Mae nodweddion da'n gorbwysu'r gwendidau (*Ysgol Bro Cinmeirch*)
- Mae gan ddisgyblion CA1 wybodaeth dda am nifer o storïau ynglŷn ag Iesu Grist a'i effaith ar bobl eraill. Maent yn gallu eu hailadrodd yn eu geiriau eu hunain a thrafod eu cynnwys. Maent hefyd yn gyfarwydd â storïau eraill o'r Beibl. (*Ysgol Bro Cinmeirch*)
- Cyfnod Allweddol 1 — Gradd 3: Mae nodweddion da'n gorbwysu'r gwendidau. (*Ysgol Dyffryn Iâl*)
- Cyfnod Allweddol 2 — Gradd 3: Mae nodweddion da'n gorbwysu'r gwendidau. (*Ysgol Dyffryn Iâl*)
- CA1 — Gradd 1: Da gyda rhai nodweddion rhagorol (*Ysgol Carrog*)
- CA2 — Gradd 1: Da gyda rhai nodweddion rhagorol (*Ysgol Carrog*)

### **Gwybodaeth/Dealltwriaeth o Gristnogaeth**

### **3 Ysgol**

- Mae disgyblion CA1 yn gwybod am y gwyliau Cristnogol ac yn gallu trafod rhai o'r prif ddiwyddiadau sy'n gysylltiedig â hwy. Gallant ddisgrifio pwrpas y gwasanaeth Diolchgarwch, maent yn sylweddoli pwysigrwydd bod yn ddiolchgar, ac maent wedi creu eu gweddïau syml eu hunain. (*Ysgol Bro Cinmeirch*)
- Mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o nodweddion ac arferiadau addoldai, ac maent yn gallu disgrifio pethau oddi mewn iddynt a'u pwrpas. (*Ysgol Bro Cinmeirch*)
- Mae'r disgyblion yn gwybod rhai o'r storïau sy'n gysylltiedig â'r prif wyliau Cristnogol, ac am arwyddocâd dyddiau neilltuol. (*Ysgol Bro Cinmeirch*)
- Mae disgyblion CA1 yn gwybod am y prif wyliau Cristnogol. (*Ysgol Dyffryn Iâl*)
- Mae disgyblion CA1 yn disgrifio'r arferion sy'n cael eu defnyddio yn ystod gwasanaethau bedyddio a phriodas. (*Ysgol Dyffryn Iâl*)
- Yn y ddau Gyfnod Allweddol, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda iawn o Gristnogaeth a gwyliau Cristnogol. Maent yn deall nodweddion bod yn Gristion, mewn cyd-destun ysbrydol ac mewn cyd-destun moesol, a'r angen am reolau mewn bywyd beunyddiol, a'u pwysigrwydd. (*Ysgol Carrog*)

### **Gwybodaeth am / Dealltwriaeth o / Cynhwysiad Crefyddau Heblaw Cristnogaeth**

### **3 Ysgol**

- Mae'r disgyblion yn gwybod bod crefyddau heblaw Cristnogaeth yn cael eu harfer ledled y byd. (*Ysgol Bro Cinmeirch*)
- Mae disgyblion CA2 yn gyfarwydd â rhai o nodweddion, symbolau ac arteffactau'r ffydd Iddewig. (*Ysgol Dyffryn Iâl*)

- Mae disgyblion CA1 yn deall yn glir beth yw ystyr rhai dathliadau crefyddol a'u harwyddocâd mewn mathau eraill o ffydd, megis Hindŵaeth. *(Ysgol Carrog)*
- Mae gan ddisgyblion CA2 ymwybyddiaeth dda o grefyddau eraill sy'n cael eu harfer yng nghymuned y byd, a pharch tuag atynt, ac maent yn ymwybodol o'r cyffelybiaethau a'r gwahaniaethau rhwng credoau ac arferiadau Mwslimiaid a Christnogion. *(Ysgol Carrog)*
- Mae disgyblion CA2 yn deall arwyddocâd dathliadau Cristnogol y Nadolig a'r Pasg, ac maent yn siarad yn deimladol iawn am eu cysylltiad eu hunain â dathliadau'r Nadolig. *(Ysgol Carrog)*

### **Gwybodaeth am /Dealltwriaeth o'r Beibl/Storïau'r Beibl**

**3 Ysgol**

- Mae gan ddisgyblion CA1 wybodaeth dda am nifer o storïau ynglŷn ag Iesu Grist a'i effaith ar bobl eraill. Maent yn gallu eu hailadrodd yn eu geiriau eu hunain a thrafod eu cynnwys. Maent hefyd yn gyfarwydd â storïau eraill o'r Beibl. *(Ysgol Bro Cinmeirch)*
- Mae'r disgyblion yn deall pwysigrwydd y Beibl i Gristnogion. *(Ysgol Bro Cinmeirch)*
- Yn CA2, mae disgyblion yn gwybod bod y Beibl yn llyfr cysegredig, ac maent yn gallu ailadrodd ac ysgrifennu rhai o'r storïau o'r Beibl mewn gwahanol gyweiriau, i safon sydd yn dda at ei gilydd. Gallant wahaniaethu rhwng y Testament Newydd a'r Hen Destament, gan drafod nifer o gymeriadau ynddynt, gwyrthiau Crist, a digwyddiadau yn ei fywyd. *(Ysgol Bro Cinmeirch)*
- Mae disgyblion CA1 yn adrodd storïau cyfarwydd o'r Beibl ac yn eu cofnodi ar ffurf lluniau ac ysgrifennu syml. *(Ysgol Dyffryn lâl)*
- Mae gan ddisgyblion CA2 ymwybyddiaeth gadarn o'r Beibl fel llyfr arbennig y grefydd Gristnogol, ac maent wedi cynhyrchu gwaith bywiog wrth empathyddio gyda Mari Jones a William Morgan. Mae ganddynt wybodaeth dda o storïau o'r Hen Destament a'r Testament Newydd, gan gynnwys gwyrthiau a damhegion Iesu. Maent yn gwybod am brif ddigwyddiadau bywyd Iesu, y gwahanol agweddau ar ei waith, ac effaith ei fywyd ar eraill. *(Ysgol Dyffryn lâl)*
- Yn y ddau Gyfnod Allweddol, mae gan y disgyblion gof eithriadol o dda am y storïau o'r Beibl sydd wedi eu dysgu iddynt. *(Ysgol Carrog)*
- Yn CA1, mae'r disgyblion yn ailadrodd yn gywir hanes Moses, a sut a phaham y croesodd ef a'r Israeliadaid y Môr Coch. Mae ganddynt adnabyddiaeth dda o hanes geni'r Iesu, a gallant siarad yn wybodus am y bobl allweddol yn y stori. *(Ysgol Carrog)*
- Mae disgyblion CA1 yn gwybod bod y Beibl yn cynnwys rheolau Duw yn y Deg Gorchymyn. *(Ysgol Carrog)*
- Mae gan ddisgyblion CA2 ddealltwriaeth dda o ddamhegion, ac maent yn gallu ei harddangos trwy ailadrodd hanes y Samariad Trugarog. *(Ysgol Carrog)*
- Gan ddilyn hanes Brenhines Seba, mae disgyblion CA2 yn disgrifio'n fanwl gywir y teimladau cadarnhaol a negyddol a fuasai'n dod i'w rhan wrth deithio yn ystod yr oes bresennol ac yn ystod oesoedd o'r blaen. Maent hefyd yn dangos empathi wrth ddisgrifio teimladau gwahanol bobl yn y dorf sy'n gwyllo'r Iesu'n dod i mewn i Jerwsalem ar y Sul y Blodau cyntaf. *(Ysgol Carrog)*

### **Gwybodaeth am /Dealltwriaeth o Gysyniadau/Themâu Crefyddol**

**3 Ysgol**

- Yn dilyn gwaith ar y Deg Gorchymyn, mae'r disgyblion yn mynegi barn ynglŷn ag ufuddhau i reolau heddiw, ac maent wedi llunio rhestr briodol o reolau ar eu cyfer eu hunain yn yr ysgol. (*Ysgol Bro Cinmeirch*)
- Mae ymwybyddiaeth disgyblion CA2 o werthoedd megis cyfeillgarwch a charedigrwydd tuag at eraill yn dda. Maent yn deall bod gan bobl eraill werthoedd gwahanol y dylid eu parchu, ac wrth drafod y byd naturiol maent yn mynegi barn ynglŷn â sut y dylent ei amddiffyn ar gyfer y cenedlaethau i ddod. (*Ysgol Bro Cinmeirch*)
- Mae disgyblion CA2 yn gwneud cynnydd da yn eu dealltwriaeth o ffeithiau ac o gysyniadau megis pwrpas gweddi. (*Ysgol Bro Cinmeirch*)
- Mae disgyblion CA1 yn trafod pwrpas gweddi, ac maent wedi cyfansoddi gweddi syml o ddiolch. (*Ysgol Dyffryn lâl*)
- Mae dealltwriaeth disgyblion CA2 o arwyddocâd addoli ac addoldai yn cael ei hymestyn gan eu hymweliadau â'r eglwys leol a'u cysylltiadau gyda'r Ficer. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o symbolau crefyddol ac o amrywiaeth o ddatiliadau a gwasanaethau. (*Ysgol Dyffryn lâl*)
- Yn CA2, mae gan y disgyblion yr hyder i siarad am y gwerthoedd sy'n bwysig iddynt, ac maent yn llunio dadleuon meddylgar, rhesymedig. (*Ysgol Carrog*)
- Mae'r disgyblion yn datblygu sgiliau cymdeithasol, moesol a diwylliannol, ac yn eu haddasu mewn ffyrdd ymarferol trwy eu hymddygiad, eu cyfrifoldebau a'u hagweddau at fywyd bob dydd yn yr ysgol. (*Ysgol Carrog*)

### **Ymweliadau ag Eglwysi/ Capeli/Addoldai Lleol**

**2 Ysgol**

- Yn dilyn ymweiad â'r eglwys leol er mwyn cymryd rhan yn yr Ŵyl Flodau, mae ganddynt ddealltwriaeth o wyliau tebyg ac o arwyddocâd yr arteffactau a geir yno. (*Ysgol Bro Cinmeirch*)
- Mae disgyblion CA1 wedi ymweld â'r eglwys leol, a gallant enwi nifer o'r arteffactau a welsant yno. (*Ysgol Dyffryn lâl*)

### **Cyfansoddi/Ysgrifennu eu Gweddïau eu Hunain**

**2 Ysgol**

- Mae'r disgyblion wedi creu eu gweddïau syml eu hunain. (*Ysgol Bro Cinmeirch*)  
Mae disgyblion CA2 wedi dyfeisio'u gweddïau eu hunain. (*Ysgol Bro Cinmeirch*)
- Mae disgyblion CA1 yn trafod pwrpas gweddi, ac maent wedi cyfansoddi gweddi syml o ddiolch. (*Ysgol Dyffryn lâl*)

### **Perthynas y Cynllun Gwaith â'r Maes Llafur Cytunedig**

**2 Ysgol**

- Mae cynnwys y Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Sir Ddinbych yn cael ei gyflwyno mewn modd priodol. (*Ysgol Bro Cinmeirch*)

- Mae cynnwys maes llafur y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) lleol yn cael ei gyflwyno'n dda (*Ysgol Dyffryn Iâl*)

**Gwybodaeth am /Ymwybyddiaeth o Fwydau Enwog 2 Ysgol**

- Mae'r disgyblion yn gyfarwydd hefyd â storïau eraill ynglŷn â Dewi Sant, William Morgan a Mari Jones. (*Ysgol Bro Cinmeirch*)
- Mae'r disgyblion yn dod i ddeall bod Dewi Sant yn Gristion gweithgar a oedd yn dweud wrth bobl am waith ac athrawiaeth Iesu Grist. Wrth drafod hanes Moses, maent yn dechrau datblygu ymhellach eu dealltwriaeth o bwysigrwydd arweinwyr. (*Ysgol Dyffryn Iâl*)

**Cyfleoedd /Y Gallu i Fynegi eu Syniadau/Barn eu Hunain 2 Ysgol**

- Yn CA1, mae'r disgyblion yn mynegi teimladau'n hyderus. Yn neilltuol, maent yn trafod y pethau sy'n eu gwneud yn hapus, yn ddig neu'n drist. (*Ysgol Dyffryn Iâl*)
- Yn CA2, mae gan y disgyblion yr hyder i siarad am y gwerthoedd sy'n bwysig iddynt, ac maent yn llunio dadleuon meddylgar, rhesymedig. (*Ysgol Carrog*)

**Ymwybyddiaeth o Effaith Credo ar Ddull o Fyw 2 Ysgol**

- Mae'r disgyblion yn trafod effaith ymddygiad ar eraill mewn modd aeddfed. (*Ysgol Bro Cinmeirch*)
- Mae disgyblion CA2 yn cydnabod bod credoau o'r fath yn effeithio ar ddulliau credinwyr ymroddedig o fyw. (*Ysgol Carrog*)

**Dim Gwendidau 1 Ysgol**

- Nid oes unrhyw wendidau o sylwedd. (*Ysgol Carrog*)

**Cyfleoedd/Gallu i Fyfyrio ar yr Effaith ar eu Bywydau eu Hunain 1 Ysgol**

- Mae'r disgyblion yn gallu trafod a pherthnasu arferiadau bywyd a defodau Cristnogion â'u bywydau eu hunain. (*Ysgol Bro Cinmeirch*)

**Y Defnydd o Ymwelwyr o Draddodiadau Ffydd eraill mewn gwaith Addysg Grefyddol 1 Ysgol**

- Mae disgyblion CA1 yn gwneud defnydd da o ymweliad y Ficer lleol, i ddatblygu ymwybyddiaeth dda o wahanol elfennau ei gwaith. (*Ysgol Dyffryn Iâl*)

**Perthnasu eu Bywydau eu Hunain eu hunain â rhai Pobl Eraill 1 Ysgol**

- Mae'r disgyblion yn datblygu sgiliau cymdeithasol, moesol a diwylliannol, ac yn eu haddasu mewn ffyrdd ymarferol trwy eu hymddygiad, eu cyfrifoldebau a'u hagweddau at fywyd bob dydd yn yr ysgol. (*Ysgol Carrog*)



## **SYLWADAU NEGyddOL**

### **Gwybodaeth /Dealltwriaeth / Cynhwysiad Crefyddau Heblaw Cristnogaeth 2 Ysgol**

- Yn y ddau Gyfnod Allweddol, mae gwybodaeth y disgyblion o grefyddau heblaw Cristnogaeth heb ei datblygu. (*Ysgol Bro Cinmeirch*)
- Nid yw disgyblion yn CA1 yn hyderus wrth drafod Iddewiaeth. (*Ysgol Dyffryn lâl*)
- Mae dealltwriaeth disgyblion CA2 o'r ffydd Iddewig yn arwynebol a chyfyngedig, er eu bod yn gwybod rhai ffeithiau. (*Ysgol Dyffryn lâl*)

### **Gwybodaeth/Dealltwriaeth o'r Beibl/Storiâu o'r Beibl 1 Ysgol**

- Mae nifer sylweddol o ddisgyblion CA2 yn methu ag enwi damhegion Iesu Grist, na'r negeseuon sydd y tu ôl iddynt. (*Ysgol Bro Cinmeirch*)

### **Gwybodaeth am /Dealltwriaeth o Gysyniadau/Themâu Crefyddol 1 Ysgol**

- Nid yw disgyblion yn CA2 yn trafod pwysigrwydd rheolau, cyfeillgarwch, gofalu am bobl eraill, a'r angen i ofalu am yr amgylchedd. (*Ysgol Dyffryn lâl*)



AWDURDOD  
CYMWYSTERAU,  
CWRICWLWM AC ASESU  
CYMRU

QUALIFICATIONS  
CURRICULUM &  
ASSESSMENT AUTHORITY  
FOR WALES

Adolygiad o  
Adroddiadau  
CYSAG  
2002–2003 a  
2003–2004

Noddir gan  
Lywodraeth Cynulliad Cymru  
Sponsored by  
Welsh Assembly Government



Cyf: AC/GM/0598

ISBN1 86112 578X

Cyhoeddwyd gyntaf 2005

© Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) 2005

Gwaherddir atgynhyrchu, storio, addasu neu gyfieithu'r cyhoeddiad hwn, ar unrhyw ffurf neu drwy unrhyw gyfrwng, heb gael caniatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr ymlaen llaw, neu o fewn telerau trwyddedau a roir gan yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint. Gellir atgynhyrchu darnau ohono at ddibenion ymchwil, astudio preifat, beirniadaeth neu adolygu, neu gan sefydliadau addysgol at ddibenion addysgol yn unig, heb ganiatâd, cyhyd ag y cydnabyddir hynny'n llawn.

Mae Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru yn elusen a eithrir o dan Atodlen 2 Deddf Elusennau 1993.

Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru, Adeiladau'r Castell, Stryd Womanby, Caerdydd CF10 1SX.

Gellir archebu rhagor o gopiau o'r ddogfen hon drwy gysylltu ag ACCAC ar:

Ffôn: (029) 2037 5400      Ffacs: (029) 2037 5494      e-bost: [info@accac.org.uk](mailto:info@accac.org.uk)  
gwefan: [www.accac.org.uk](http://www.accac.org.uk)

Wrth archebu, dyfynnwch y teitl a'r cyfeirnod.

# Cynnwys

1.	Crynodeb gweithredol	2
2.	Cyflwyniad	4
3.	Addysg grefyddol	10
4.	Addoli ar y cyd	44
5.	Materion eraill	49

## 1 Crynodeb gweithredol

- 1.1 Mae'r adroddiadau CYSAG a ddadansoddwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn dangos sut y mae CYSAGau ac AALLau yn parhau i ddatblygu ffyrdd dyfeisgar o gefnogi ysgolion a chodi safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yng Nghymru. Caiff y cynnydd a wnaed ers y cyfnod adrodd diwethaf ei nodi isod.
- 1.2 Mae'r rhan fwyaf o CYSAGau yn parhau i wneud cynnydd cadarnhaol o ran cynghori eu AALLau i gefnogi a monitro'r gwaith o weithredu eu meysydd llafur cytûn lleol. Mae sawl CYSAG yn cynhyrchu deunyddiau dyfeisgar er mwyn cefnogi'r gwaith hwn, ond nid oes tystiolaeth i ddangos gwerthuso effeithiolrwydd y deunyddiau o ran cynorthwyo athrawon bob amser ar gael.
- 1.3 **Mae ACCAC yn argymhell bod pob CYSAG yn parhau i ddarparu cyngor effeithiol i'w AALLau ar weithredu eu meysydd llafur cytûn lleol a'u cefnogi ynghyd ag awgrymiadau ar sut y gellir asesu llwyddiant adnoddau a deunyddiau arweiniad ar addysgu a dysgu yn yr ystafell ddosbarth.**
- 1.4 Ar hyn o bryd, mae pob un o'r 22 adroddiad CYSAG yn darparu dadansoddiad ystadegol o adroddiadau arolygu. Roedd 20 yn 2002–2003 a 19 yn 2003–2004 wedi ystyried y canlyniadau ac adrodd ar sut y cafodd ysgolion eu cefnogi a'u hannog i hyrwyddo AGr o safon. Mae pedwar CYSAG eisoes wedi gweithredu gweithdrefnau er mwyn mesur safonau ar ôl i Estyn weithredu'r fframwaith arolygu newydd.
- 1.5 **Mae ACCAC yn argymhell bod pob CYSAG yn parhau i werthuso safonau AGr ac addoli ar y cyd mewn ysgolion a chynghori eu AALLau ar y materion sydd angen sylw. Yng ngoleuni'r fframwaith arolygu newydd, dylai pob CYSAG gynghori eu AALLau ar sut i fonitro a chefnogi safonau mewn ysgolion.**
- 1.6 Darparodd pob CYSAG a gyflwynodd adroddiadau yn ystod y cyfnod adrodd hwn wybodaeth ystadegol am ganlyniadau arholiadau. Mae nifer y CYSAGau a adroddodd ar y trafodaethau dilynol a gynhaliwyd o ganlyniad i'r gwaith dadansoddi wedi cynyddu o 11 CYSAG yn 2000–2001 a 9 CYSAG yn 2001–2002 i 18 yn 2002–2003 a 17 yn 2003–2004. Fodd bynnag, mae cefnogaeth ac anogaeth i ysgolion o ganlyniad i'r gwaith dadansoddi yn isel o hyd, gyda 11 CYSAG yn nodi camau gweithredu yn 2002–2003 a 10 yn 2003–2004.
- 1.7 **Mae ACCAC yn argymhell y dylai pob adroddiad CYSAG ddarparu tystiolaeth o'r materion sydd wedi codi o ganlyniad i'r gwaith o ddadansoddi ystadegau arholiadau. Mae ACCAC hefyd yn argymhell darparu tystiolaeth o gamau gweithredu dilynol a gymerir gan AALLau o ganlyniad i gyngor gan CYSAGau, yn enwedig os yw CYSAGau am gyflawni eu swyddogaeth gyfreithiol o gefnogi'r broses o godi safonau AGr.**

1.8 Mae'r lefel o gymorth a roddir i athrawon o ran hyfforddiant a chyngor ar adnoddau a dulliau addysgu wedi cynyddu o 13 CYSAG yn 2000–2001 a 17 CYSAG yn 2001–2002 i 22 yn 2002–2003 a 21 yn 2003–2004. Fodd bynnag, dim ond pump CYSAG a nododd fod eu AALLau wedi gweithredu strategaethau i nodi anghenion hyfforddi ac i werthuso'r effaith ar arferion athrawon ac addysg disgyblion.

**1.9 Mae ACCAC yn argymhell y dylai pob adroddiad CYSAG barhau i ddarparu tystiolaeth o'r cymorth, y cyngor a'r hyfforddiant a roddir gan eu AALI. Mae hefyd yn awgrymu y dylai pob CYSAG yna gynghori eu AALI ar sut y gellir gweithredu'r gweithdrefnau hyn yn fwy effeithiol.**

1.10 Mae'r cymorth a'r arweiniad a ddarperir gan AALLau ar gyfer addoli ar y cyd yn isel o hyd. Yn ystod y cyfnod adrodd nododd hyd at 11 adroddiad CYSAG eu bod wedi cynorthwyo ysgolion, ond nodwyd rhywfaint o'r cymorth hwnnw yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf.

1.11 Mae nifer yr AALLau sy'n monitro adroddiadau arolygu wedi parhau'n gyson ers y cyfnod adrodd diwethaf, sef 18 yn 2002–2003 yn ogystal â 2003–2004. Cynigiodd hyd at 10 CYSAG gymorth i ysgolion o ganlyniad i werthuso'r dystiolaeth, ond dim ond un adroddiad CYSAG a nododd eu bod wedi defnyddio'r dystiolaeth arolygu i nodi'r prif faterion ac o ganlyniad, weithredu strategaeth ar gyfer gwelliant.

**1.12 Mae ACCAC yn argymhell y dylai pob CYSAG, ar ôl gwerthuso'r dystiolaeth ynglŷn â safonau addoli ar y cyd, gynghori eu AALI ar y prif faterion a godwyd a nodi ffyrdd o fynd i'r afael â'r materion hyn er mwyn cynorthwyo ysgolion.**

1.13 Mae llawer o arfer da yng ngwaith y CYSAGau ac yn y cyngor a roddir i bob AALI er mwyn hyrwyddo safonau AGr ac addoli ar y cyd. Mae'r adroddiadau CYSAG yn ffordd o rannu arfer da, rhoi gwybod i athrawon am faterion a datblygiadau dyfeisgar ym maes AGr a gwerthuso llwyddiant. Hefyd, mae CCYSAGC yn gweithredu fel fforwm cadarnhaol ar gyfer rhannu syniadau, trafod materion pwysig a chefnogi pob CYSAG yng Nghymru.

**1.14 Mae ACCAC yn cydnabod y gwaith a gyflawnir gan CYSAGau a CCYSAGC o ran cefnogi a chodi safonau AGr. Er mwyn adeiladu ar arfer da, mae ACCAC yn argymhell y dylai CYSAGau a CCYSAGC ystyried sut y gall pob CYSAG werthuso a monitro'u gwaith a chael eu cefnogi orau o ran cwrdd â'u rhwymedigaethau cyfreithiol, gweithio gyda'i gilydd, rhannu arfer da a chefnogi datblygiad AGr o safon ac addoli ar y cyd yng Nghymru.**

## 2 Cyflwyniad

- 2.1 Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Addysg Lleol (AALI) gael Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n ofynnol i bob CYSAG gyhoeddi adroddiadau blynyddol a ddylai grynhoi'r holl gyngor a roddir i'r AALI, cyngor y gofynnodd yr AALI amdano a chyngor a roddwyd gan y CYSAG. Mae'n ofynnol i bob CYSAG anfon copi o'i adroddiad blynyddol i ACCAC. Mae Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94 yn argymhell y dylai adroddiadau gwmpasu y flwyddyn academaidd a chael eu hanfon i ACCAC erbyn 30 Rhagfyr bob blwyddyn.
<b>Pen-y-bont ar Ogwr</b>	Bodlonodd y rhan fwyaf o ysgolion cynradd y gofynion cyfreithiol. Cydymffurfio yn fater allweddol ar gyfer gweithredu i 1 ysgol uwchradd	Aelodau'r CYSAG yn ymweld ag ysgolion	Bodlonodd y rhan fwyaf o ysgolion cynradd y gofynion cyfreithiol. Cydymffurfio yn fater allweddol ar gyfer gweithredu i 1 ysgol uwchradd	Aelodau'r CYSAG yn ymweld ag ysgolion
<b>Caerffili</b>	Bodlonodd ysgolion cynradd y gofynion cyfreithiol. Cydymffurfio yn fater allweddol ar gyfer gweithredu i 5 ysgol uwchradd	Gwneud cais am gynllun gweithredu gan ysgolion lle mae addoli ar y cyd yn fater allweddol	Bodlonodd y rhan fwyaf o ysgolion cynradd y gofynion cyfreithiol. Cydymffurfio yn fater allweddol ar gyfer gweithredu i 2 ysgol uwchradd	Gwneud cais am gynllun gweithredu gan ysgolion lle mae addoli ar y cyd yn fater allweddol. Aelodau'r CYSAG yn ymweld ag ysgolion
<b>Caerdydd</b>	Ni ddarparwyd gwybodaeth		Bodlonodd y rhan fwyaf o ysgolion cynradd y gofynion cyfreithiol. Rhai ysgolion uwchradd ddim yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol	Ymgynghorydd yn ymweld ag ysgolion. Monitro yn y dyfodol i'w drafod gan aelodau CYSAG
<b>Sir Gaerfyrddin</b>	Safonau'n dda iawn mewn 5 ysgol, yn dda mewn 11 ysgol ac yn foddhaol mewn 6 ysgol		Mewn ysgolion cynradd, roedd safonau'n dda iawn mewn 4 ysgol, yn dda mewn 5 ysgol ac yn foddhaol mewn 11 ysgol. Ystyriwyd sesiynau addoli ar y cyd yn dda mewn 1 ysgol uwchradd. Cydymffurfio yn fater allweddol ar gyfer gweithredu i 3 ysgol uwchradd	
<b>Ceredigion</b>	Safonau'n dda iawn mewn 3 ysgol, yn dda mewn 5 ysgol, yn foddhaol mewn 7 ysgol a dim dyfarniad mewn 1 ysgol		Mewn ysgolion cynradd, roedd safonau'n dda iawn mewn 1 ysgol, yn dda mewn 6 ysgol, yn foddhaol mewn 5 ysgol a dim dyfarniad mewn 1 ysgol. Roedd sesiynau addoli ar y cyd yn foddhaol mewn 1 ysgol uwchradd	
<b>Conwy</b>	Mewn ysgolion cynradd, roedd safonau'n dda iawn mewn 1 ysgol ac yn dda mewn 8 ysgol	Anfonwyd llythyrau i ysgolion i gynnig cymorth a gwybodaeth	Mewn ysgolion cynradd, roedd safonau'n dda mewn 4 ysgol ac yn foddhaol mewn 4 ysgol. Hefyd, nododd yr adroddiad bod addoli ar y cyd wedi ei hyrwyddo'n llwyddiannus mewn 1 ysgol. Mewn ysgolion uwchradd, roedd safonau'n dda mewn 2 ysgol ac yn foddhaol mewn 1 ysgol	Anfonwyd llythyrau i ysgolion i gynnig cymorth a gwybodaeth

Enw'r AALI	Addoli ar y cyd 2002–2003	Cymorth a gynigiwyd o ganlyniad i ddadansoddi	Addoli ar y cyd 2003–2004	Cymorth a gynigiwyd o ganlyniad i ddadansoddi
<b>Sir Ddinbych</b>	Mewn ysgolion cynradd, roedd safonau'n dda iawn mewn 2 ysgol ac yn dda mewn 4 ysgol	Anfonwyd llythyrau i ysgolion i gynnig cymorth a gwybodaeth	Safonau'n dda iawn mewn 2 ysgol, yn dda mewn 6 ysgol, yn dda ar y cyfan mewn 1 ac yn foddhaol mewn 4 ysgol. Hefyd, nododd yr adroddiad bod addoli ar y cyd wedi ei hyrwyddo'n llwyddiannus iawn mewn 1 ysgol tra nododd 2 adroddiad fethiant i gydymffurfio â'r gofynion statudol	Anfonwyd llythyrau i ysgolion i gynnig cymorth a gwybodaeth
<b>Sir y Fflint</b>	Safonau'n dda iawn mewn 2 ysgol, yn dda mewn 16 ysgol ac yn foddhaol mewn 3 ysgol. Nododd 6 adroddiad bryder ynglŷn â'r mater o gydymffurfio â'r gofynion statudol	Anfonwyd llythyrau i ysgolion i gynnig cymorth a gwybodaeth	Safonau'n rhagorol mewn 1 ysgol, yn dda iawn mewn 3 ysgol ac yn dda mewn 7 ysgol	Anfonwyd llythyrau i ysgolion i gynnig cymorth a gwybodaeth
<b>Gwynedd</b>				
<b>Merthyr Tudful</b>	Bodlonodd y rhan fwyaf o ysgolion cynradd y gofynion cyfreithiol. Cydymffurfio yn fater allweddol ar gyfer gweithredu i 1 ysgol gynradd a 2 ysgol uwchradd		Gohiriwyd trafodaeth o ganlyniad i ddiddymu'r cyfarfod	
<b>Sir Fynwy</b>	Bodlonodd pob ysgol gynradd y gofynion cyfreithiol.		Bodlonodd y rhan fwyaf o ysgolion cynradd y gofynion cyfreithiol. Cydymffurfio yn fater allweddol i 1 ysgol uwchradd	
<b>Castell-nedd Port Talbot</b>				
<b>Casnewydd</b>	Bodlonodd ysgolion cynradd y gofynion cyfreithiol. Cydymffurfio yn fater allweddol ar gyfer gweithredu i 1 ysgol uwchradd		Bodlonodd y rhan fwyaf o ysgolion cynradd y gofynion cyfreithiol ond 1 ysgol heb gydymffurfio'n llawn. Cydymffurfio yn fater allweddol ar gyfer gweithredu i 1 ysgol uwchradd	
<b>Sir Benfro</b>	Safonau'n dda iawn mewn 4 ysgol, yn dda mewn 12 ysgol ac yn foddhaol mewn 1 ysgol		Safonau'n dda iawn mewn 8 ysgol, yn dda mewn 8 ysgol ac yn foddhaol mewn 3 ysgol	
<b>Powys</b>	Safonau'n dda iawn mewn 3 ysgol, yn dda mewn 10 ysgol, yn foddhaol mewn 3 ysgol, yn anfoddhaol mewn 1 ysgol gynradd ac yn foddhaol mewn 1 ysgol uwchradd	Darnau o adroddiadau arolygu i'w hanfon i ysgolion i gynnig cyngor ar addoli ar y cyd	Safonau'n dda iawn mewn 5 ysgol, yn dda mewn 12 ysgol, yn foddhaol mewn 1 ysgol ac yn anfoddhaol mewn 1 ysgol gynradd. Mewn ysgolion uwchradd, roedd safonau'n dda mewn 2 ysgol ac yn anfoddhaol mewn 1 ysgol am fethu â bodloni'r gofynion statudol	Darnau o adroddiadau arolygu i'w hanfon i ysgolion i gynnig cyngor ar addoli ar y cyd

Enw'r AALI	Addoli ar y cyd 2002–2003	Cymorth a gynigiwyd o ganlyniad i ddadansoddi	Addoli ar y cyd 2003–2004	Cymorth a gynigiwyd o ganlyniad i ddadansoddi
Rhondda Cynon Taf	Bodlonodd y rhan fwyaf o ysgolion y gofynion cyfreithiol. Cydymffurfio yn fater allweddol ar gyfer gweithredu i 2 ysgol uwchradd ac 1 ysgol arbennig	HMS ac aelodau'r CYSAG yn ymweld ag ysgolion	Bodlonodd y rhan fwyaf o ysgolion y gofynion cyfreithiol. Cydymffurfio yn fater allweddol ar gyfer gweithredu i 3 ysgol uwchradd	AALI yn monitro darpariaeth ac aelodau'r CYSAG yn ymweld ag ysgolion
Abertawe	Bodlonodd y rhan fwyaf o ysgolion cynradd y gofynion cyfreithiol. Cydymffurfio yn fater allweddol ar gyfer gweithredu i 3 ysgol uwchradd ac 1 ysgol arbennig		Bodlonodd y rhan fwyaf o ysgolion cynradd y gofynion cyfreithiol. Cydymffurfio yn fater allweddol ar gyfer gweithredu i 1 ysgol uwchradd	Gofynnodd CYSAG am gynllun gweithred gan yr ysgol uwchradd
Torfaen	Bodlonodd y rhan fwyaf o ysgolion cynradd y gofynion cyfreithiol. Adroddodd arolygydd esgobaethol ar yr ysgol uwchradd		Bodlonodd y rhan fwyaf o ysgolion cynradd y gofynion cyfreithiol	
Bro Morgannwg	Mewn ysgolion cynradd, roedd safonau'n dda iawn mewn 2 ysgol ac yn dda mewn 8 ysgol			
Wrecsam	Safonau'n dda iawn mewn 4 ysgol, yn dda mewn 10 ysgol ac yn foddhaol mewn 7 ysgol. Nododd 3 adroddiad fod addoli ar y cyd yn fater allweddol. Nododd 2 o'r rhain bryder ynglŷn â chydymffurfio â'r gofynion statudol	Anfonwyd llythyrau i ysgolion i gynnig cymorth a gwybodaeth	Safonau'n dda iawn mewn 2 ysgol, yn dda mewn 9 ysgol ac yn foddhaol mewn 3 ysgol. Nododd 3 adroddiad bryder ynglŷn ag addoli ar y cyd	Swyddogion yr AALI yn gweithio gyda'r 3 ysgol i wella'r ddarpariaeth. Anfonwyd llythyrau i ysgolion i gynnig cymorth a gwybodaeth

**4.8 Mae ACCAC yn croesawu'r strategaethau sydd wedi eu gweithredu i fonitro'r ddarpariaeth addoli ar y cyd ac i gynorthwyo arfer da. Gwahoddir pob CYSAG i gynghori eu AALI ar sut y gall y dystiolaeth a gesglir trwy ddadansoddi adroddiadau arolygu ac ymweld ag ysgolion nodi strategaethau i gynorthwyo ysgolion nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion statudol. Hefyd, anogir pob CYSAG i gynghori eu AALI ar y ffordd orau o fonitro effeithiolrwydd unrhyw gyngor a roddir trwy HMS, dogfennau arweiniad a gwefan yr AALI.**

## 5 Materion eraill

- 5.1 Yn ystod 2002–2004, adroddodd CYSAG ar bob math o waith dyfeisgar diddorol ynghyd ag ymatebion i faterion amrywiol a gododd yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r gwaith hwn wedi parhau i ddatblygu ac yn hybu gwaith pob CYSAG.

### Hyfforddiant i aelodau CYSAG a chyfathrebu â llywodraethwyr ysgol

- 5.2 Mae hyfforddiant i aelodau CYSAG yn bwysig iawn er mwyn iddynt dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ym maes AGr a materion addysg cyffredinol yn ogystal â chadw cysylltiad agos â'u hysgolion lleol, athrawon a grwpiau ffydd. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, derbyniodd 16 CYSAG yn 2002–2003 a 12 CYSAG yn 2003–2004 gyflwyniadau gan athrawon, swyddogion AALI (nid AGr bob amser) ac aelodau o grwpiau ffydd a/neu sefydliadau eraill. Mae rhywfaint o gynnwys y cyflwyniadau'n ymwneud yn benodol ag agweddau ar grefyddau arbennig. Mae hyfforddiant arall yn ymwneud â materion addysgol eang megis agweddau dysgu gweithredol, sgiliau meddwl, materion pontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 a defnyddio drama i gynorthwyo AGr. Mae Caerffili, Abertawe, Torfaen, Bro Morgannwg a Wrecsam yn bwriadu datblygu'r syniad hwn trwy gynnal cyfarfodydd CYSAG mewn ysgolion a/neu fannau addoli lleol fel y bod credoau ac arferion addysgol a chrefyddol yn cael eu gweld ar waith.
- 5.3 Yn ystod 2002–2004, adroddodd dau CYSAG y byddant un ai'n hyrwyddo AGr trwy argymhell hyfforddiant i lywodraethwyr cyswllt neu drwy ddarparu gwybodaeth am AGr a'r cyfnod pontio yng nghylchlythyr nesaf yr AALI i lywodraethwyr.

5.4 Mae'r tabl canlynol yn dangos y math o hyfforddiant/gwybodaeth a ddarperir i aelodau CYSAG a llywodraethwyr ysgol.

Enw'r AALI	Cyflwyniadau gan swyddogion yr AALI 2002–2003	Cyflwyniadau gan athrawon 2002–2003	Cyflwyniadau gan sefydliadau a chynrychiolwyr ffydd 2002–2003	Cynigion cyffredinol ar gyfer cyfarfodydd CYSAG a hyfforddiant llywodraethwyr
Ynys Môn			Seminar addysg gan Paul Ginnis ac athrawon lleol – mynychodd aelodau'r CYSAG yn y prynhawn	
Blaenau Gwent	Blynyddoedd Cynnar	Cwrs byr TGAU		
Pen-y-bont ar Ogwr	Sgiliau meddwl AGr			
Caerffili	Sgiliau meddwl AGr	Strategaethau addysgu a dysgu	ESIS – defnyddio data	Cynigiwyd cynnal cyfarfodydd CYSAG a chael cyflwyniad mewn ysgolion a manau addoli lleol
Caerdydd		AGr gynradd ddyfeisgar		
Sir Gaerfyrddin	Sgiliau meddwl AGr dan 5 oed		Aelod o'r ffydd Iddewig	
Ceredigion	Sgiliau meddwl AGr dan 5 oed		Cwrs byr CBAC	
Conwy				
Sir Ddinbych				
Sir y Fflint				
Gwynedd			Seminar addysg gan Paul Ginnis ac athrawon lleol. Mynychodd aelodau'r CYSAG yn y prynhawn	
Merthyr Tudful	Sgiliau meddwl AGr Adnoddau AGr	Dulliau addysgu a dysgu AGr		
Sir Fynwy	Blynyddoedd Cynnar			
Castell-nedd Port Talbot				
Casnewydd	Sgiliau meddwl yng Nghasnewydd Sgiliau meddwl AGr		'Initiative Christian Education Wales'. Credoau ac arferion yr Eglwys yng Nghymru	Hyfforddiant AGr i lywodraethwyr cyswllt
Sir Benfro			Bwdhaeth Darlith flynyddol	
Powys				
Rhondda Cynon Taf	Sgiliau meddwl AGr			
Abertawe	Sgiliau meddwl AGr			Cynnal cyfarfodydd CYSAG a chael cyflwyniad mewn ysgolion a manau addoli lleol
Torfaen	Sgiliau dysgu a gwerthfawrogi (Swyddog Gwyddoniaeth) Sgiliau meddwl AGr		Gwasanaeth benthycu arteffactau	Cynnal cyfarfodydd CYSAG a chael cyflwyniad mewn ysgolion a manau addoli lleol
Bro Morgannwg		Agwedd gytún at AGr		Cynnal cyfarfodydd CYSAG mewn ysgolion lleol
Wrecsam				

Enw'r AALI	Cyflwyniadau gan swyddogion yr AALI 2003–2004	Cyflwyniadau gan athrawon 2003–2004	Cyflwyniadau gan sefydliadau a chynrychiolwyr ffydd 2003–2004	Cynigion cyffredinol ar gyfer cyfarfodydd CYSAG a hyfforddiant llywodraethwyr
Ynys Môn				
Blaenau Gwent				
Pen-y-bont ar Ogwr		Strategaethau dysgu gweithredol		
Caerffili				Cynigiwyd cynnal cyfarfodydd CYSAG a chael cyflwyniad mewn ysgolion a mannau addoli lleol
Caerdydd				
Sir Gaerfyrddin				
Ceredigion				
Conwy	Ymweld ag Uganda			
Sir Ddinbych	Ymweld ag Uganda	Darpariaeth AGR mewn ysgolion cynradd ac uwchradd		
Sir y Fflint				
Gwynedd				
Merthyr Tudful		Pontio o CA2–CA3		Gwybodaeth am bontio o CA2–CA3 i'w rhoi yn y cylchlythyr nesaf i lywodraethwyr
Sir Fynwy	Bwrdd gwyn rhyngweithiol	AGR mewn ysgolion uwchradd		
Castell-nedd Port Talbot				
Casnewydd			Gwasanaeth Ieuenctid yn cefnogi Wythnos Un Byd Wythnos o Ymwybyddiaeth am Islam	
Sir Benfro			Bwdhaeth Darlith flynyddol	
Powys				
Rhondda Cynon Taf		Datblygu strategaethau dysgu gweithredol mewn AGR	Project Eglwysi Ynghyd	
Abertawe				Cynigiwyd cynnal cyfarfodydd CYSAG a chael cyflwyniad mewn ysgolion a mannau addoli lleol
Torfaen			Cwmni Theatr Gwent – Drama ac AGR	Cynigiwyd cynnal cyfarfodydd CYSAG a chael cyflwyniad mewn ysgolion a mannau addoli lleol
Bro Morgannwg				
Wrecsam		Gweithredu'r maes llafur cytûn yng Nghyfnod Allweddol 1  Masnach Deg (digiylion ac athrawon)		Cynigiwyd cynnal cyfarfodydd CYSAG a chael cyflwyniad mewn ysgolion

## Materion cymunedol

- 5.5 Roedd y rhan fwyaf o CYSAGau yn gadarnhaol ynglŷn â'u cysylltiad â'r Gymdeithas Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru (CCYSAGC). Soniodd rhai CYSAGau am gysylltiadau â'r Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol ym Mangor, Mudiad Addysg Gristnogol Cymru (CEMW), Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG) a cholegau hyfforddi athrawon lleol.
- 5.6 Hefyd, nododd nifer o CYSAGau eu cysylltiadau â'r gymuned un ai trwy gyfrannu at ddigwyddiadau cenedlaethol neu drwy gynnal eu digwyddiad lleol eu hunain fel ffordd o gynorthwyo arfer da mewn AGr a darparu profiadau perthnasol a chofiadwy i ddisgyblion yn yr AALI.
- 5.7 Mae'r tabl canlynol yn dangos y gweithgareddau cymunedol a gafodd eu trefnu a/neu eu cefnogi gan AALI.

Enw'r AALI	Cyfraniad lleol at Ddiwrnod Coffa'r Holocaust 2002–2004	Gohebiaeth â Swyddfa Jiwibili Aur y Frenhines 2002–2003	Trefnu digwyddiad lleol i ysgolion 2002–2003	Trefnu digwyddiad lleol i ysgolion 2003–2004
Ynys Môn				
Blaenau Gwent	✓	✓		
Pen-y-bont ar Ogwr	✓✓			
Caerffili	✓			
Caerdydd				Arddangosfa Anne Frank
Sir Gaerfyrddin	✓			
Ceredigion	✓			
Conwy	✓		Diwrnod Profiad o Gristnogaeth yn Llanelwy	
Sir Ddinbych	✓	✓	Diwrnod Profiad o Gristnogaeth yn Llanelwy Ystyried darparu Fforwm Ffydd leuenticid	Ystyried darparu Fforwm Ffydd leuenticid
Sir y Fflint	✓	✓	Diwrnod Profiad o Gristnogaeth yn Llanelwy Ystyried darparu Fforwm Ffydd leuenticid	
Gwynedd				
Merthyr Tudful	✓			
Sir Fynwy		✓		
Castell-nedd Port Talbot	✓✓		Plant yr Holocaust yn Nhemi Heddwch, Caerdydd	Arddangosfa Ffordd Iddewig o Fyw ym Mharc Margam
Casnewydd	✓✓			Ystyried darparu Digwyddiad i Bobl Ifanc
Sir Benfro		Cystadleuaeth – Themâu Cymreig ar gyfer Addoli ar y Cyd		Canmlwyddiant Arddangosfa Diwygiad Crefyddol 1904
Powys	✓			

Enw'r AALI	Cyfraniad lleol at Ddiwrnod Coffa'r Holocaust 2002–2004	Gohebiaeth â Swyddfa Jiwibili Aur y Frenhines 2002–2003	Trefnu digwyddiad lleol i ysgolion 2002–2003	Trefnu digwyddiad lleol i ysgolion 2003–2004
Rhondda Cynon Taf	✓			
Abertawe	✓✓			
Torfaen	✓			Cynllunio arddangosfa Holocaust
Bro Morgannwg				
Wrecsam	✓	✓	Diwrnod Profiad o Gristnogaeth yn Llanelwy Gŵyl Tapestri Bywyd a Ffydd Ystyried darparu Fforwm Ffydd leuenctid	Gŵyl Tapestri Bywyd a Ffydd

*Oni nodir yn wahanol, mae un ✓ yn cyfeirio at adroddiad 2002–2003. Mae'r ail ✓ yn cyfeirio at adroddiad 2003–2004.*

**5.8 Mae ACCAC yn croesawu'r cymorth mae aelodau CYSAG a llywodraethwyr yn eu rhoi i AALI a'r cysylltiadau sy'n cael eu ffurfio yn y gymuned i hyrwyddo dealltwriaeth amlddiwylliannol ac aml-ffydd ac i atgyfnerthu addysg grefyddol o safon uchel i ddisgyblion.**



# Nodiadau

# Adolygiad o Adroddiadau CYSAG 2002 – 2003 a 2003 - 2004

## 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

- Mae ACCAC yn argymhell bod pob CYSAG yn parhau i ddarparu cyngor effeithiol i'w AALLau ar weithredu eu meysydd llafur cytûn lleol a'u cefnogi ynghyd ag awgrymiadau ar sut y gellir asesu llwyddiant adnoddau a deunyddiau arweiniad ar addysgu a dysgu yn yr ystafell ddosbarth.
- Mae ACCAC yn argymhell bod pob CYSAG yn aprhau i werthuso safonau AGr ac addoli ar y cyd mewn ysgolion a chynghori eu AALLau ar y materion sydd angen sylw. Yng ngoleuni'r fframwaith arolygu newydd, dylai pob CYSAG gynghori eu AALLau ar sut i fonitro a chefnogi safonau mewn ysgolion.
- Mae ACCAC yn argymhell y dylai pob adroddiad CYSAG ddarparu tystiolaeth o'r materion sydd wedi codi o ganlyniad i'r gwaith o ddadansoddi ystadegau arholiadau. Mae ACCAC hefyd yn argymhell darparu tystiolaeth o gamau gweithredu dilynol a gymerir gan AALLau o ganlyniad i gyngor gan CYSAGau, yn enwedig os yw CYSAGau am gyflawni eu swyddogaeth gyfreithiol o gefnogi'r broses o godi safonau AGr.
- Mae ACCAC yn argymhell y dylai pob adroddiad CYSAG barhau i ddarparu tystiolaeth o'r cymorth, y cyngor a'r hyfforddiant a roddir gan eu AALL. Mae hefyd yn awgrymu y dylai pob CYSAG yna gynghori eu AALL ar sut y gellir gweithredu'r gweithdrefnau hyn yn fwy effeithiol.
- Mae ACCAC yn argymhell y dylai pob CYSAG, ar ôl gwerthuso'r dystiolaeth yngbn â safonau addoli ar y cyd, gynghori eu AALL ar y prif faterion a godwyd a nodi ffyrdd o fynd i'r afael â'r materion hyn er mwyn cynorthwyo ysgolion.
- Mae ACCAC yn cydnabod y gwaith a gyflawnir gan CYSAGau a CCYSAGC o ran cefnogi a chodi safonau AGr.

# Adolygiad o Adroddiadau CYSAG 2002 – 2003 a 2003 - 2004

Er mwyn adeiladu ar arfer da, mae ACCAC yn argymhell y dylai CYSAGau a CCYSAGC ystyried sut y gall pob CYSAG werthuso a monitro'u gwaith a chael eu cefnogi orau o ran cwrdd â'u rhwymedigaethau cyfreithiol, gweithio gyda'i gilydd, rhannu arfer da a chefnogi datblygiad AGr o safon ac addoli ar y cyd yng Nghymru.

## 2. ADDYSG GREFYDDOL

### Meysydd Llafur Cytûn Lleol

- Mae ACCAC yn croesawu'r gwaith a gyflawnir gan bob AALI o ran adolygu ei faes llafur cytûn a chynorthwyo ysgolion i'w weithredu. Argymhellir bod pob CYSAG yn cynghori ei AALI am ffyrdd priodol o fonitro a gwerthuso effeithioirwydd ei faes llafur cytûn, er enghraifft, trwy holiaduron a/neu ymweliadau Ysgol. Cânt hefyd eu hannog i werthuso effeithioirwydd y cymorth a dderbynnir ar gyfer gweithredu'r maes llafur cytûn, trwy asesu'n swyddogol effeithioirwydd dogfennau arweiniad a HMS ar athrawon ac arferion yr ystafell ddosbarth.

### Adroddiadau Arolygu Ysgolion

- Mae ACCAC yn croesawu'r gwaith a gyflawnir gan bob CYSAG o ran dadansoddi adroddiadau arolygu ac yn gobeithio y bydd pob CYSAG, yng ngoleuni gweithdrefnau arolygu newydd, yn cynghori eu AALLau i ddatblygu dulliau dyfeisgar o asesu a monitor safonau yn eu hysgolion lleol. Angoir pob CYSAG i barhau i gynorthwyo a monitor ysgolion cyn ac ar ôl yr arolygu ac i werthuso effeithioirwydd y cymorth hwn trwy nodi gwelliannau neu fel arall mewn agweddau arbennig ar AGr.

### Canlyniadau Arholiadau

- Mae ACCAC yn gwahodd pob CYSAG i ddadansoddi a thrafod canlyniadau arholiadau ac yn nodi'n arbennig gwaith y CYSAGau hynny sydd wedi cynghori eu AALI, o ganlyniad i'r dadansoddi, i gefnogi a monitor arholiadau cyhoeddus mewn

# **Adolygiad o Adroddiadau CYSAG 2002 – 2003 a 2003 - 2004**

ysgolion. Argymhellir pob CYSAG i werthuso canlyniadau arholiadau, gan gynnwys ystyried ffigurau cymru gyfan, canlyniadau blynyddoedd blaenorol, patrymau cofrestru a materion rhyw, ac i gynghori'r AALI ar sut y gellir cynnal a gwella safonau arholiadau cyhoeddus dros amser.

## **Dulliau Addysgu, Dewis Adnoddau Addysgu a Hyfforddiant Athrawon.**

- Mae ACCAC yn croesawu'r cymorth a ddarperir gan AALI ar gyfer addysgu addysg grefyddol. Argymhellir i bob CYSAG gynghori eu AALI i fabwysiadu dulliau priodol o nodi a gwerthuso effeithioirwydd y cymorth a'r cyngor a roddir er mwyn codi safonau.

### **3. ADDOLI AR Y CYD**

#### **Monitro Addoli Ar Y Cyd**

- Mae ACCAC yn croesawu'r strategaethau sydd wedi eu gweithredu i fonitro'r ddarpariaeth addoli ar y cyd ac i gynorthwyo arfer da. Gwahoddir pob CYSAG i gynghori eu AALI ar sut y gall y dystiolaeth a gesglir trwy ddadansoddi adroddiadau arolygu ac ymweld ag ysgolion nodi strategaethau i gynorthwys ysgolion nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion statudol. Hefyd, anogir pob CYSAG i gynghori eu AALI ar y ffordd orau o fonitro effeithiolrwydd unrhyw gyngor a roddir trwy HMS, dogfennau arweiniad a gwefan yr AALI.

### **4. MATERION ERAILL**

#### **Materion Cymunedol**

- Mae ACCAC yn croesawu'r cymorth mae aelodau CYSAG a llywodraethwyr yn eu rhoi i AALI a'r cysylltiadau sy'n cael eu ffurfio yn y gymuned i hyrwyddo dealltwriaeth amiddiwylliannol ac aml-ffydd ac i atgyfnerthu addysg grefyddol o safon uchel i ddisgyblion.

**ACCAC: Ymatebion i'r Adolygiad o Adroddiadau CYSAG**  
**2002-2003 & 2003 - 2004**

*Ar gyfer CYSAGau -Mehefin / Gorffennaf 2006*

1. Crynodeb Gweithredol:

- Mae CYSAG wedi cynnig arweiniad a deunydd cefnogol ar gyfer gweithredu'r y Maes Llafur a Gytunwyd yn rheolaidd .
  - *Cafwyd rhywfaint o dystiolaeth fod y deunydd wedi bod yn ddefnyddiol ac wedi cael effaith ar ddarpariaeth drwy adborth a sylwadau cyffredinol yn ogystal â thrwy fonitro'r ddarpariaeth ar gyfer Addysg Grefyddol.*
  - *A oes angen unrhyw 'asesiad' ffurfiol arall? A fyddai gwybodaeth o'r fath o werth?*
  
- Mae CYSAG , mewn cydweithrediad â'r Adran Addysg Lleol, wedi buddsoddi mewn system o fonitro darpariaeth a safonau ynghylch Addysg Grefyddol a chyd addoli ac mae'n casglu'r wybodaeth hon pob tymor ac yn flynyddol.
  - *Mae ysgolion yn falch o'r broses ac mae wedi helpu CYSAG a'r Awdurdod Addysg Lleol i ddeall mwy ynghylch safonau a materion yn eu hysgolion.*
  
- Dadansoddir canlyniadau arholiadau gan CYSAG ymhob cyfarfod Tymor y Gwanwyn a chynhelir trafodaethau llawn; cyhoeddir y ffigyrau a'r ymatebion iddynt - gan gynnwys unrhyw gweithredu oherwydd - yn flynyddol yn Adroddiad CYSAG.
  
- Tan yn ddiweddar (ac oherwydd y newidiadau gyda dyfodiad Cronfa Ysgolion Gwell) roedd Adroddiad Blynyddol CYSAG bob amser yn cynnwys cyfeiriad at sesiwn Hyfforddi mewn Swydd a ddarperid yn ystod y flwyddyn. Ni chynhaliwyd y rhain yn ystod y ddwy flynedd diwethaf; cynigir dau gwrs ar gyfer tymor yr hydref 2006 gan fod criteria Cronfa Ysgolion Gwell yn caniatáu i'r rhain cael eu cynnig.
  - *O ystyried y fformiwla gyllido mae'n anodd i Awdurdodau Addysg Lleol ac i ysgolion wneud mwy; yn y gorffennol roedd dadansoddiad bob amser yn cyfeirio at werthuso'r cyrsiau a ddarperid - roedd y cyrsiau Addysg Grefyddol yn cael eu gwerthfawrogi a'u hystyried yn effeithiol gan athrawon bob amser.*
  
- Mae'r rhaglen fonitro sydd wedi'i sefydlu erbyn hyn yn cynnwys ystyried y ddarpariaeth ar gyfer cyd addoli; nodir lle ceir problemau a'u datrys trwy waith yr Arolygwr / Ymgynghorydd.

- Mae CYSAG wedi cydweithio gyda GYSAGau lleol eraill a chyda Chymdeithasu CYSAGau Cymru. Mae rhannu ymarfer da wedi bod yn ganlyniad arall i broses monitro ac adrodd CYSAG ac mae ysgolion wedi gallu helpu ei gilydd. Mae holl waith CYSAG a'r Arolygwr / Ymgynghorydd wedi'i anelu tuag at gefnogi datblygu ansawdd Addysg Grefyddol a chyd addoli yn yr ysgolion.
  - *Mae adborth a sylwadau cyffredinol wedi dangos fod ysgolion yn croesawu ac yn gwerthfawrogi 'r broses monitro. Mae'r Adroddiadau Blynyddol a dadansoddiadau o'r Adroddiadau Archwiliad hefyd i'w gweld yn dangos effaith y gwaith hwn yn y ddarpariaeth ac ar safonau Addysg Grefyddol a chyd addoli yn yr Awdurdod Addysg Lleol.*
  - *A oes angen unrhyw asesiad ffurfiol neu werthusiad ac a yw'n bosibl? Pa fantais ychwanegol a geid o wybodaeth o'r fath?*

Mae'r materion a godwyd yn adrannau 2 (Addysg Grefyddol, 2 (Cyd Addoli) a 4 (Materion Eraill) o'r Adolygiad o Adroddiadau CYSAG wedi'u trafod yn y pwyntiau uchod, ar wahân i'r canlynol:

#### 2. Addysg Grefyddol – Dulliau o Ddysgu, Dewis o Ddysgu Adnoddau a Hyfforddi Athrawon

- Mae canllawiau ynghylch dulliau dysgu ac addysgu Cynigiwyd Hyfforddiant Athro yn fel HMS, ond cafodd ei leihau'n arw oherwydd nad yw criteria newydd Cronfa Ysgolion Gwell yn cynnwys pynciau penodol.
- Nid yw CYSAG wedi cynghori ysgolion yn ffurfiol hyd yn hyn ar y dewis o adnoddau dysgu ond cynigir cyngor trwy HMS a gwaith yr Arolygwr / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol.

#### 4. Materion eraill – Materion Cymunedol

- Yn y gorffennol trefnwyd digwyddiadau i hyrwyddo dealltwriaeth aml ddiwylliannol, aml ffydd ac i atgyfnerthu addysg grefyddol o ansawdd da ar gyfer pob disgybl.
  - *Mae trefnu digwyddiadau o'r fath yn cymryd llawer iawn o amser, ymdrech ac adnoddau ariannol; ni fu'n bosibl darparu'r rhain yn rheolaidd yn ystod y blynyddoedd diweddar, er gwaethaf ymgeisio am gyllid ayb.*



AWDURDOD  
CYMYSYTERAU,  
CYWRICWLWM AC ASESU  
CYMRU

QUALIFICATIONS  
CURRICULUM &  
ASSESSMENT AUTHORITY  
FOR WALES

# Adroddiadau Blynyddol CYSAG

Canllawiau ar gyfer  
ffocws a strwythur

# Cynnwys

<b>Adran 1: Cyflwyniad</b>	<b>4</b>
Cefndir	4
Diben y canllawiau hyn	4
<b>Adran 2: Ffocws a strwythur a argymhellir ar gyfer Adroddiadau Blynyddol CYSAG</b>	<b>5</b>
Ffocws Adroddiadau Blynyddol CYSAG	5
Strwythur Adroddiadau Blynyddol CYSAG	5
<b>Adran 3: Prif gorff Adroddiad Blynyddol CYSAG</b>	<b>7</b>
Cyngor i'r AALI – addysg grefyddol	7
Cyngor i'r AALI – addoli ar y cyd	8
Cyngori'r AALI ynghylch materion eraill	9

# Cynnwys



## Adran 1: Cyflwyniad

# Adran 1

### Cefndir

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i'r Cyngorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAGau) lunio adroddiad o'u gwaith yn flynyddol. Mae'r adroddiadau blynyddol hyn yn werthfawr gan eu bod yn darparu:

- gwybodaeth i athrawon ac eraill am y gefnogaeth a'r arweiniad a roddir gan yr Awdurdod Addysg Lleol (AALI) i helpu codi safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd
- cofnod swyddogol o'r cyngor a roddwyd i'r AALI gan CYSAG, a chrynodeb o'r canlyniadau.

Yn 1996, cynhyrchodd ACCAC y canllawiau – *Adroddiadau Blynyddol CYSAG – Arweiniad i Strwythur a Fformat*. Cafodd y ddogfen hon effaith gadarnhaol i'r graddau fod adroddiadau CYSAG, ar y cyfan, bellach yn dilyn strwythur a fformat cyffredin ac yn cynnwys gwybodaeth debyg. Mae hyn yn eu gwneud yn fwy hygyrch i'r darlennydd cyffredin ac yn hwyluso'r cymharu a geir yn adolygiadau eilflwydd ACCAC.

### Diben y canllawiau hyn

Diben y canllawiau hyn yw adeiladu ar arfer dda. Dylai adroddiadau CYSAG fod hyd yn oed yn fwy effeithiol trwy grynhoi'r cyngor a roddwyd gan CYSAG i'r AALI, a thrwy danlinellu prif gasgliadau'r AALI ar sail y cyngor hwn.

## Adran 2: Ffocws a strwythur a argymhellir ar gyfer Adroddiadau Blynyddol CYSAG

### Ffocws Adroddiadau Blynyddol CYSAG

Rhaid i adroddiadau CYSAG, yn ôl y gyfraith:

- nodi unrhyw faterion y bydd CYSAG wedi rhoi cyngor i'r AALI yn eu cylch
- disgrifio'n fras natur y cyngor a roddwyd, a
- lle na chyflwynwyd mater penodol i sylw CYSAG gan yr AALI, nodi rhesymau CYSAG dros gynnig cyngor ar y mater hwnnw.

Byddai'r cyngor a roddwyd yn berthnasol i ysgolion o fewn yr AALI sy'n dilyn y maes llafur cytûn lleol, ac ni fyddai o reidrwydd yn berthnasol i ysgolion a ddilynodd gofynion gwahanol, e.e. maes llafur esgobaethol.

### Strwythur Adroddiadau Blynyddol CYSAG

Dylai adroddiadau CYSAG ddilyn strwythur cyffredin a darparu gwybodaeth glir, gryno a pherthnasol. Argymhellir y strwythur canlynol:

#### Cynnwys

Dylai pob adroddiad CYSAG gynnwys tudalen gynnwys a thudalennau wedi'u rhifo i helpu darllenwyr ddod o hyd i'r wybodaeth sydd o ddiddordeb iddyn nhw.

#### Crynodeb gweithredol

Dylai'r adran hon gynnwys crynodeb byr o'r cyngor a roddwyd i'r AALI yn ystod y cyfnod adrodd gan ddatgan a yw'r AALI wedi gweithredu ar y cyngor a roddwyd, neu'n bwriadu gwneud hynny.

#### Cyngor i'r AALI

Rhaid i brif gorff yr adroddiad gynnwys cyngor ynghylch:

- addysg grefyddol, yn unol â'r maes llafur cytûn lleol
- dulliau addysgu
- y dewis o ddeunyddiau addysgu
- y ddarpariaeth o ran hyfforddiant i athrawon
- addoli ar y cyd.

Yn ogystal, dylai'r adroddiad gynnwys cyngor ynghylch materion eraill, gan gynnwys sut y gallai'r AALI ymateb i faterion lleol a chenedlaethol.

# Adran 2

**Atodiadau**

Dylid defnyddio atodiadau i ddarparu gwybodaeth atodol sy'n sail i ran o'r prif adroddiad. Dylai hyn gynnwys:

- gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG
- y nifer o gyfarfodydd CYSAG a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd
- rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad CYSAG
- tystiolaeth bwrpasol (ystadegol neu fel arall) yn dangos ar ba sail y rhoddwyd y cyngor gan CYSAG, a/neu dystiolaeth i gefnogi barnau gwerthusol, e.e. gwybodaeth am wella perfformiad mewn ysgolion.

# Adran 3: Prif gorff Adroddiad Blynyddol CYSAG

## Cyngor i'r AALI – addysg grefyddol

Rhaid i CYSAGau gynghori'r AALI ar faterion sy'n ymwneud ag addysg grefyddol. Mae hyn yn cynnwys cynghori'r Awdurdod i adolygu'r maes llafur cytûn lleol a chyflwyno addysg grefyddol yn unol â'r maes llafur cytûn. Felly, dylai prif gorff adroddiad CYSAG dynnu sylw at ba gyngor (yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael) a roddwyd i'r AALI yn y cyfnod adrodd blaenorol a phryd a sut y gweithredwyd ar y cyngor hwn yn y cyfnod adrodd cyfredol, gan nodi unrhyw gyngor pellach a roddwyd i'r AALI.

## Maes llafur cytûn lleol

Er mwyn cadw cofnod o statws y maes llafur cytûn lleol yn yr AALI dylai pob adroddiad CYSAG nodi dyddiad mabwysiadu'r maes llafur cytûn lleol a'r dyddiad a glustnodir ar gyfer ei adolygu gan yr AALI.

Dylai'r adroddiad fynd ymlaen i ddisgrifio sut mae cyngor CYSAG wedi cyfrannu at waith yr AALI parthed:

- arwain ysgolion wrth iddynt weithredu'r maes llafur cytûn lleol
- cefnogi ysgolion i godi safonau mewn addysg grefyddol
- gwerthuso effeithiolrwydd y maes llafur cytûn lleol
- monitro effeithiolrwydd unrhyw gefnogaeth ac arweiniad a ddarparwyd gan yr AALI
- adolygu'r maes llafur cytûn lleol.

## Safonau mewn addysg grefyddol

Er mwyn cefnogi codi safonau mewn addysg grefyddol, dylai adroddiadau CYSAG egluro sut y mae dadansoddi canlyniadau arholiad, adroddiadau Estyn, cyrhaeddiad diwedd cyfnod allweddol disgyblion (gan ddefnyddio disgrifiadau lefelau enghreifftiol ACCAC neu ddulliau mesur a ddyfeisiwyd yn lleol) a gweithdrefnau monitro'r AALI wedi arwain at roi cyngor i'r AALI. Yna dylai'r adroddiad esbonio sut y gweithredwyd ar gyngor CYSAG gan yr AALI a, lle bo hynny'n bosibl, gwerthuso pa mor llwyddiannus fu'r strategaethau hyn wrth godi safonau.

Wrth adrodd yn ôl ar unrhyw faterion o ddiffyg cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu ansawdd addysg grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 4 a thu hwnt, dylai adroddiadau CYSAG gofnodi unrhyw gyngor a roddwyd i'r AALI. Dylai adroddiad CYSAG ddisgrifio unrhyw gamau a gymerwyd gan yr AALI o ganlyniad i'r arweiniad a roddwyd a, lle bo hynny'n bosibl, dylai werthuso'r llwyddiant o weithredu'r strategaethau a argymhellwyd er mwyn codi safonau yng Nghyfnod Allweddol 4 a thu hwnt.

# Adran 3

## **Dulliau addysgu, y dewis o ddeunyddiau addysgu, a hyfforddiant athrawon**

Dylai'r adroddiad CYSAG ddisgrifio'r cyngor a roddwyd i AALI parthed dulliau addysgu, y dewis o ddeunyddiau addysgu, a hyfforddiant athrawon (HMS a HAGA). Er enghraifft, gallai CYSAG gynghori:

- y dylid cynhyrchu canllawiau er mwyn cefnogi addysgu addysg grefyddol
- y dylid paratoi canllawiau er mwyn cynorthwyo athrawon i ddewis deunyddiau addysgu o safon
- y dylid darparu HMS pwrpasol er mwyn cyflwyno athrawon i fethodoleg newydd yn ymwneud ag addysg
- y dylid darparu HMS pwrpasol o safbwynt agweddau penodol ar addysg grefyddol lle ceir tystiolaeth bod angen hyfforddiant pellach
- lle dylai'r AALI ymgyswngi â gwaith colegau HAGA (*ITET*) sy'n defnyddio ysgolion AALI fel canolfannau hyfforddi ac sy'n hyrwyddo cysylltiadau rhwng y coleg a CYSAG.

Lle bo hynny'n bosib, dylid cynnwys yn yr adroddiad blynyddol dystiolaeth o welliannau mewn safonau addysgu a dysgu o ganlyniad i'r cyngor a roddir gan CYSAG. Er enghraifft, gallai tystiolaeth fod ar ffurf:

- adborth gan ymgynghorwyr ar sail ymweliadau ag ysgolion
- arolygon pwrpasol i asesu effeithiolrwydd y canllawiau a roddwyd i athrawon
- ystadegau'n dangos y gwelliant mewn canlyniadau arholiadau
- data a ddarparwyd gan weithdrefnau monitro yr AALI
- astudiaethau achos cryno gan athrawon.

## **Cyngor i'r AALI – addoli ar y cyd**

### **Monitro a chynghori ynghylch addoli ar y cyd**

Rhaid i CYSAGau gynghori'r AALI ynghylch materion yn ymwneud ag addoli ar y cyd. Dylai adroddiad CYSAG nodi unrhyw gyngor a roddwyd i'r AALI. Er enghraifft, gallai'r CYSAG fod wedi cynghori'r AALI y dylent:

- fonitro'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd
- darparu canllawiau ynghylch addoli ar y cyd
- darparu neu argymhell adnoddau ar gyfer addoli ar y cyd
- trefnu HMS pwrpasol.

Dylai CYSAG adrodd ar effeithiolrwydd y cyngor a roddwyd i'r AALI a dylai gydweithio â'r AALI er mwyn parhau i werthuso pa mor llwyddiannus yw monitro o chefnogi'r drefn o weithredu addoli ar y cyd o safon yn yr ysgolion.

### **Penderfyniadau**

Dylai pob adroddiad blynyddol gynnwys adran yn ymwneud â phenderfyniadau, gan nodi a oes unrhyw benderfyniadau wedi eu gwneud ai peidio. Dylid nodi gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw benderfyniadau a wnaed a dylai CYSAG adolygu'r sefyllfa bob pum mlynedd. Dylai adroddiad CYSAG nodi a yw'r Gweinidog ar gyfer Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi'i hysbysu ynglŷn â'r mater hwn ai peidio.

### **Cynghori'r AALI ynghylch materion eraill**

#### **Materion lleol**

Dylai adroddiad CYSAG ddisgrifio unrhyw gyngor a roddwyd i'r AALI o safbwynt:

- hyfforddiant i lywodraethwyr
- ymweliadau aelodau CYSAG ag ysgolion
- arddangosfeydd arbennig, diwrnodau â thema benodol sydd wedi'u trefnu'n arbennig ynghyd â gweithgareddau eraill sy'n ymwneud â disgyblion, athrawon neu aelodau CYSAG.

Lle bo hynny'n bosibl, dylai'r adroddiad ddangos sut y gweithredwyd ar y cyngor a roddwyd ac a oedd y camau hynny'n llwyddiannus ai peidio.

#### **Materion cenedlaethol**

Dylai adroddiad CYSAG nodi'r modd y mae mentrau, dogfennau neu gynadleddau cenedlaethol wedi arwain CYSAG i roi cyngor penodol i'r AALI.

#### **Cwynion**

Dylai'r adroddiad gynnwys cofnod o unrhyw gwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn a'r argymhellion a ddeilliodd ohonynt. Dylid nodi unrhyw newidiadau i'r gweithdrefnau presennol.

**Adroddiad ar y cyfarfod a gynhaliwyd gyda'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu  
Gydol Oes ar 17eg mai 2006**

Yn Bresennol:

- *Dros Lywodraeth Cynulliad Cymru:*  
Y Gweinidog, Mr J Valentine Williams, Mrs Denize Morris, Ms K Haggerty
- *Dros Gymdeithas CYSAGau Cymru a PYCAG*  
Y Tad Ieuan Wyn Jones; Mr Gavin Craigen; Mrs Mairwenna Lloyd; Mrs Susan Collingbourne

**1. Adroddiad o weithgareddau Cymdeithas CYSAGau Cymru am y flwyddyn 2005 - 2006**

(arweiniwyd gan y Tad Ieuan Wyn Jones)

- Roedd y cyfarfod gydag ELWa yn ddiwyll a phositif; eglurodd ELWa'r fformiwla gyllido a chynnwys Addysg Grefyddol ar siart llif defnyddiol.
- Adolygiad o'r Gwahoddiad i Dendro – mynegwyd diolch am gael bod yn rhan o'r adolygiad, y canlyniadau'n awr? Dywedodd y Gweinidog fod yr Adolygiad wedi'i gwblhau a'i bod wedi derbyn mewn egwyddor yr argymhellion eang, er bod rhai yn dal i gael eu hadolygu. Roedd angen rhagor o waith trwy gyfrwng y Gymraeg; roedd oedran ymdeol wedi'i gynnwys a'r broses o dorri 100,000 o leoedd gwag ar y gweill. Cafodd cyllid ychwanegol ar gyfer Addysg Grefyddol fel pwnc yn y Gwahoddiad i Dendro ei grybwyll hefyd .
- Cyllid Ôl 16 – a oedd pethau'r un fath ag adeg y cyfarfod diwethaf? Dywedodd y Gweinidog nad oedd unrhyw newid i'r cynlluniau i dorri cyllid y canolfannau nad ydynt yn cyrraedd graddau uwch mewn Archwiliad, gan ei bod wedi'i hargyhoeddi o'r angen am ansawdd. Cyfeiriodd at Gynllun Gweithredu a Chanllaw 14 – 19 a bod angen cydweithio gan dynnu sylw at yr adborth positif oddi wrth beilot Bacc Cymru a'r cyrsiau newydd sy'n dod ar gael.
- Cyflwyniadau a wnaed i Gymdeithas CYSAGau Cymru trwy'r bartneriaeth gyda PYCAG.
- Cynhadledd Arbennig – Roedd y Gymdeithas yn edrych ymlaen at bresenoldeb a chyfraniad y Gweinidog ar 20fed Mai. (Bydd copi o'i haraith ar gael ar ôl y gynhadledd. Roedd yn ddrwg ganddi nad oedd yn gallu aros oherwydd ymrwymadau ychwanegol ar y diwrnod hwnnw.)

**2. Briff, strwythur a chyfrifoldeb yr Adran Addysg a Dysgu Gydol Oes**

(arweiniwyd gan Mrs Mairwenna Lloyd)

- Roedd y bartneriaeth rhwng ACCAC a Chymdeithas CYSAGau Cymru (a PYCAG) wedi'i gwerthfawrogi'n fawr.
- Gan fod ACCAC wedi dod yn Adran Addysg a Dysgu Gydol Oes, beth oedd y cylch gorchwyl, y strwythur a'r chyfrifoldebau newydd? Dywedodd y Gweinidog y dylai pethau barhau fel ag o'r blaen. Bydd yr adran newydd yn cael ei arwain gan Steve Marshall, gyda phedwar Cyfarwyddwr – y mae John Valentine Williams yn un

ohonynt (Grŵp Cwricwlwm a Chymwysterau). Sicrhaodd yr aelodau y dylid dal i ddefnyddio'r un dulliau o gysylltu.

- Comisiynu a phrosiectau a wnaed o'r blaen gan ACCAC – a fyddai'r rhain yn parhau gan eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n arw? Dywedodd y Gweinidog yn glir y byddai hyn yn parhau a'i bod yn bwysig cael canolbwynt Cymreig a deunydd dwyieithog ar gyfer y pwnc. Gobeithir efallai gomisiynu rhagor.

### **3. Partneriaeth rhwng Cymdeithas CYSAGau Cymru a'r Adran Addysg a Dysgu Gydol Oes er mwyn gwella'r Adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol ynghylch Addysg Grefyddol**

(arweiniwyd gan Mr Gavin Craigen)

- Yn ddiolchgar fod Addysg Grefyddol wedi'i chynnwys yn yr Adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar yr un sail a graddfa amser a phynciau eraill, ac am yr ymgynghori ehangach a gynllunnir yn ogystal â'r cyfle a gafwyd gyda'r Gynhadledd Arbennig hefyd.
- Roedd hyn i gyd yn ddatblygiad pwysig iawn a allai gael effaith sylweddol ar ddarpariaeth a safonau Addysg Grefyddol, felly roedd yn bwysig gwneud y gorau ohono a sicrhau ei fod yn cyflawni'r hyn a ddisgwyllir.
- Cyfeiriwyd at y datblygiad yn Lloegr rhwng y Cyngor Addysg Grefyddol a'r Adran Addysg a Gwyddoniaeth a'r strategaeth genedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol. Gofyn am bartneriaeth debyg gyda'r Adran Addysg a Dysgu Gydol Oes a strategaeth yng Nghymru i wella ansawdd Addysg Grefyddol ym mhob ysgol. Soniodd y Gweinidog fod mwy o bobl yn gweithio yn yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth nag yng ngweddill Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ni allai wneud unrhyw ymrwymiad ynghylch un ran o'r cwricwlwm. Gwahoddodd John Valentine i gyflwyno ei sylwadau a dywedodd fod Addysg Grefyddol yn cael ei gydnabod fel pwnc ar wahân a bod ACCAC wastad wedi, ac y byddai'r Adran yn parhau, i gynnig cyngor Cenedlaethol yr un fath ag ar gyfer gweddill y cwricwlwm. Ychwanegodd y byddai swyddogaeth yr awdurdodau lleol, o ran Addysg Grefyddol, yn parhau, y byddai'n cael ei gryfhau ac y byddai penderfyniad lleol yn cael ei gydnabod .
- Soniodd Mr Craigen am hunaniaeth genedlaethol, gan gydnabod penderfyniad lleol, ond gan ofyn am gylch gorchwyl ehangach yn seiliedig ar y Canllaw newydd, er mwyn targedu codi safonau ac annog gwell darpariaeth trwy:
  - Rhaglen o hyfforddiant ac arweiniad ar y Rhaglenni Astudiaeth newydd
  - Datblygu effeithiolrwydd CYSAGau, gan gynnwys monitro darpariaeth
  - Cynnwys Addysg Grefyddol yn y peilot asesu, yr un fath â phynciau eraill, a datblygu rhagor o ddefnyddiau
  - Datblygu adnodd ar lein ar gyfer cynghori a chefnogi.
- Atebodd y Gweinidog fod y mater o ddatblygiad proffesiynol athrawon wedi'i godi o'r blaen a bod ei hateb hithau'n dal yr un fath. Ni fyddai'r Gronfa Ysgolion Well yn nodi Addysg Grefyddol nac unrhyw bwnc arall fel achos arbennig a bod arian Cyngorau Dysgu Cyffredinol Cymru ar gyfer ymarfer da. Gall CYSAGau, trwy'r trefniadau cyllido lleol, hefyd wneud cyfraniad i'r Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer Addysg Grefyddol. Roedd yr Adran hefyd yn ceisio penodi Hyrwyddwr Pedagogeg i symud y cwricwlwm tu hwnt i drafodaeth ynghylch y cynnwys a chreu mwy o gyfleoedd i ddysgu'n greadigol. Cytunodd y dylid datblygu deunydd



hyfforddiant yr un pryd a'r cwricwlwm newydd ar sail sgiliau. Nododd John Valentine Williams y dylid ceisio gweld sut y gall Addysg Grefyddol helpu gyda datblygu sgiliau ac y gellid hyfforddi yn y cyd-destun hwnnw.

#### **4. Rôl CYSAGau yn y dyfodol o gofio efallai y bydd cydweithio rhwng Awdurdod Unedol.**

(arweiniwyd gan y Tad Ieuan Wyn Jones)

- Os byddai llawer mwy o gydweithio o ran darpariaeth ar gyferdarparu a monitro addysg, ble roedd CYSAGau'n sefyll. Atebodd y Gweinidog nad oedd unrhyw gynlluniau i newid y ffiniau, felly byddai'r CYSAGau'n aros ym mob awdurdod.
- Diolchwyd i'r Gweinidog am ei hamser a'i hymatebion - roedd y Cymdeithas yn edrych ymlaen at yr ymweliad blynyddol nesaf yn 2007.